



Cynllun Iaith Gymraeg

A baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae Coleg Ceredigion wedi mabwysiadu'r egwyddor o ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yng Nghymru ar sail gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun Iaith hwn yn egluro'r modd y mae Coleg Ceredigion am weithredu'r egwyddor honno pan fydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a sut mae'r Coleg yn bwriadu rhoi'r egwyddor ar waith yn ei weithgareddau beunyddiol.

Derbyniodd y cynllun diwygiedig hwn gymeradwyaeth o dan adran 16 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ar yr 21ain o Chwefror 2012.

	Cynnwys:	Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Proffil y Coleg	5
3.	Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun	7
4.	Datblygu Ethos Gymreig yn y Coleg	21
5.	Datblygu Sgiliau Cyfathrebu	31
6.	Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg neu Ddwieithog ar gyfer Dysgwyr Ôl 16	34
7.	Cynllun Gweithredu	47

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir y Cynllun Iaith hwn fel trydydd Cynllun Iaith Coleg Ceredigion. Dylid nodi ymateb cadarnhaol Bwrdd yr Iaith i Gynllun blaenorol y coleg a'r sylwadau a wnaed ar lwyddiant y coleg i gyflawni targedau a gosod "strwythurau" cadarn i sicrhau cydymffurfriad llawn a gofynion y Cynllun Iaith. Mae'r coleg yn ymfalchïo yn y cynnydd cyson a wnaed wrth weithredu amcanion a thargedau'r Cynllun blaenorol.
- 1.2 Yn dilyn penodi Pennaeth newydd ac ailstrwythuro mewnol mae'r coleg o'r farn fod llunio Cynllun newydd yn amserol ac yn caniatáu i'r coleg fynd i'r afael a gofynion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach Colegau Cymru. Bydd y Cynllun hwn yn adeiladu ar lwyddiant y gorffennol ac yn gosod gweithdrefnau ar waith i sicrhau cynnydd pellach.
- 1.3 Ym mis Mehefin 2011 cymeradwywyd Cenhadaeth newydd i'r coleg sef

Cyflawni Potensial Newid Bywydau

- 1.4 Yn ogystal mae'r coleg wedi mabwysiadu cyfres newydd o amcanion strategol fel a ganlyn:
 1. Darparu addysg o'r ansawdd uchaf
 2. Cefnogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial
 3. Arwain a chyfranogi mewn rhwydweithiau dysgu deinamig er mwyn cynyddu dewis y dysgwr a gwella canlyniadau gan arwain at well cyfleoedd cyflogaeth ac addysg uwch.
 4. Sefydlu'r coleg yn gadarn fel sefydliad dwyieithog blaenllaw lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u trin yn gyfartal.
 5. Darparu amgylchedd o ansawdd uchel lle caiff adnoddau materol a dynol eu defnyddio mewn modd cynaliadwy a chost effeithiol
 6. Seilio datblygiadau strategol ar arweinyddiaeth gadarn ar bob lefel gan gynnwys y Bwrdd Llywodraethol

- 1.5 Mae'r holl amcanion hyn yn gosod y dysgwr yn ganolog i weithgaredd y coleg ac yn unol a'r amcanion hyn, prif nod y coleg wrth gyflwyno'r Cynllun Iaith fydd ateb gofynion y dysgwyr a'u galluogi i gyrraedd eu llawn botensial boed hynny yn y gymuned leol, yng Nghymru neu thu hwnt.
- 1.6 Mae Amcan Strategol 4 yn rhoi pwyslais arbennig ar ddwyieithrwydd ac yn cydnabod ymrwymiad y coleg i anghenion ieithyddol y dysgwr a'r gymuned.
- 1.7 Yn ogystal, fel coleg wedi ei leoli yn un o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith Gymraeg mae'r coleg yn cydnabod fod ganddo rôl bendant i'w chwarae wrth ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn genedlaethol ac wrth sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cyfnod addysg statudol i addysg ôl-16.

2. PROFFIL Y COLEG

Lleoliad

- 2.1 Mae Coleg Ceredigion yn darparu addysg bellach ledled rhanbarth awdurdod lleol Ceredigion ac mae'n gwasanaethu cymunedau mewn rhannau o'r siroedd cyfagos yn ogystal. Mae i'r coleg ddau gampws, y naill yng ngogledd y sir yn Aberystwyth a'r llall ar ffin ddeheuol y Sir yn nhref Aberteifi. Mae'r ddau gampws 38 milltir oddi wrth ei gilydd.

Staff

- 2.2 Mae'r coleg ar hyn o bryd yn cyflogi bron i 200 o staff gan cynnwys oddeutu 80 aelod rhan amser.

Myfyrwyr

- 2.3 Mae'r coleg yn cofrestru rhyw 3,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn y rhan fwyaf ohonynt yn fyfyrwyr rhan amser. Mae dros 750 o fyfyrwyr llawn amser yn cofrestru yn flynyddol y rhan fwyaf ohonynt yn gyn ddisgyblion yn un o'r deg ysgol uwchradd yn y dalgylch (saith ysgol yng Ngheredigion ac ysgolion uwchradd cyfagos ym Machynlleth, Castell Newydd Emlyn a Chrymych). Mae dros 350 o ddisgyblion ysgol yn cofrestru ar gyfer Clybiau Ar Ôl Ysgol y coleg.
- 2.4 Yn y blynyddoedd diwethaf mae rhwng 20 a 30% o fyfyrwyr llawn amser y coleg wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ar eu ffurflenni cais

Demograffeg yr Ardal

- 2.5 Yn ddaearyddol, Ceredigion yw un o'r siroedd mwyaf yng Nghymru yn cwmpasu bron i 1,800 cilometr sgwâr. Dros y blynyddoedd diweddar oherwydd mewnfudo bu cynnydd yn nifer y boblogaeth i gyfanswm o 77,800. Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio ynghyd â gostyngiad yn nifer y bobl ifanc. Mae disgwyl i nifer y pobl ifanc 16-19 mlwydd oed yn y sir i leihau yn sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf.

Natur leithyddol y Sir

- 2.6 Mae 58% o'r boblogaeth yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg.

Ysgolion y Cylch

- 2.7 Mae'r ardal a wasanaethir gan y Coleg yn cael ei gwasanaethu hefyd gan nifer o ysgolion uwchradd, pob un ohonynt â chweched dosbarth. Yng Ngheredigion ei hun, mae dwy allan o'r

saith ysgol uwchradd wedi eu dynodi'n ysgolion dwyieithog, tra bod gan y rhan fwyaf o'r lleill gwricwlwm cadarn yn yr iaith Gymraeg.

Amgylchedd Economaidd

- 2.8 Prif sectorau cyflogaeth Ceredigion yw amaethyddiaeth, twristiaeth, mân-werthu a gwasanaethau cyhoeddus. Cyflogir oddeutu 40% o weithlu Ceredigion yn y sector cyhoeddus, sef iechyd, addysg, ymchwil a gweinyddiaeth gyhoeddus.

3. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

CYFRIFOLDEB AM WEITHREDU'R CYNLLUN IAITH

Strwythur Staff

Tîm Dwyieithrwydd

- 3.1 Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y Cynllun Iaith y mae'r coleg wedi sefydlu Tîm Dwyieithrwydd sydd a chyfrifoldeb penodol am ddwyieithrwydd ar draws y coleg gan gynnwys gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith .
- 3.2 Mae'r Tîm Dwyieithrwydd yn cynnwys y canlynol:
- Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol
 - Arweinydd Addysg Dwyieithog
 - 2 Ymgynghorydd Iaith (1 i bob campws)

Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol

- 3.3 Mae'r Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am ddatblygiadau strategol dwyieithrwydd o fewn y coleg ac yn atebol i Bennaeth y coleg.

Arweinydd Addysg Dwyieithog(AAD)

- 3.4 Mae'r Arweinydd Addysg Dwyieithog (AAD) yn atebol i'r Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r AAD yn canolbwyntio ar ddarpariaeth addysgol y coleg ac yn benodol gyfrifol am:
1. Ddatblygu rhaglen newydd o gyrsiau i wella sgiliau ieithyddol myfyrwyr yng nghyswllt y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth trwy:
 - Ymchwilio i gyrsiau sgiliau ieithyddol yng nghyswllt y Gymraeg, megis Iaith ar Waith a lefelau'r cyrsiau hynny gan bennu'r rhaglenni mwyaf addas i'w defnyddio yn y coleg;
 - Gynllunio rhaglen o gyrsiau ieithyddol a ellir ei chyflwyno i fyfyrwyr gan gynnwys unedau ar godi ymwybyddiaeth i fyfyrwyr di Gymraeg;
 - Datblygu system i alluogi'r coleg i asesu lefel ieithyddol myfyriwr yng nghyswllt y Gymraeg ar ddechrau ac ar ddiwedd cwrs er mwyn mesur cynnydd ieithyddol a mesur llwyddiant rhaglenni ieithyddol;
 - Defnyddio'r system asesu i bennu'r lefel astudio mwyaf addas ar gyfer pob myfyriwr;

- Cyflwyno'r unedau ieithyddol mewn cydweithrediad a staff addysgu.
 - Datblygu rhaglen o hyfforddiant a rhaglen fentora i staff
2. Cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog trwy
- Asesu lefel ieithyddol staff yng nghyswllt y Gymraeg a datblygu rhaglenni hyfforddiant addas i ddatblygu y sgiliau hynny
 - Gynnal a chyflwyno sesiynau datblygu staff i staff addysgu Cymraeg eu hiaith i godi hyder ac i gynorthwyo staff di Gymraeg i gyflwyno strategaethau dysgu yn ddwyieithog newydd yn y dosbarth;
 - Sefydlu a gweithredu rhaglen fentora ar gyfer staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar addysgu dwyieithog;
 - Gweithio ar y cyd gydag Ymgynghorwyr Iaith y coleg i archwilio'r adnoddau addysgu Cymraeg/dwyieithog presennol a chynllunio ar gyfer sicrhau adnoddau ar gyfer pob maes;
 - Gweithio ar y cyd gydag Ymgynghorwyr Iaith a staff addysgu i ddatblygu strategaethau dysgu yn ddwyieithog newydd.

Ymgynghorwyr Iaith

3.5 Mae'r coleg yn cyflogi dau Ymgynghorydd Iaith – un ar bob campws sydd yn atebol i'r Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r Ymgynghorwyr Iaith yn canolbwyntio ar sicrhau gweithredu'r Cynllun Iaith ar draws y coleg. Mae eu rôl yn cynnwys:

- Gweithio gyda staff Cyngor a Chyfarwyddid y coleg i gyfweled pob darpar fyfyrwr er mwyn asesu eu anghenion ieithyddol
- Gweithio ar y cyd gyda'r AAD a staff addysgu i archwilio'r adnoddau addysgu Cymraeg/dwyieithog presennol a chynllunio ar gyfer sicrhau adnoddau ar gyfer pob maes
- Gweithio ar y cyd gyda AAD a staff addysgu i ddatblygu strategaethau dysgu yn ddwyieithog newydd
- Gweithio ar y cyd gyda AAD a staff addysgu i sicrhau system effeithiol o recordio gweithgaredd dwyieithog
- Cynnig cymorth un-i-un ar sgiliau ieithyddol i fyfyrwyr sy'n astudio yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o gynllun "Help Llaw"
- Cynnig cymorth a chyfarwyddid i staff ar ddefnydd o'r Gymraeg

- Hybu dwyieithrwydd yn y coleg a thu hwnt
- Gweithio gyda staff ac adrannau swyddogaethol i gryfhau ethos Gymraeg y coleg yn fewnol ac yn allanol
- Cyfieithu deunyddiau addysgiadol a swyddogaethol

Cyfrifoldeb Staff Arall

- 3.6 Mae cytundebau gwaith aelodau staff y coleg yn nodi'r angen i gyfrannu fel bo'n addas i weithredu effeithiol Cynllun Iaith y coleg. Mae cyfrifoldeb ar reolwyr a staff goruchwyliol i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu ar bob lefel o fewn y coleg.
- 3.7 Bydd sesiynau dwyieithrwydd Rhaglen Datblygu Staff y coleg yn cynnwys sesiynau ar godi ymwybyddiaeth am y Cynllun Iaith gan sicrhau bod unigolion yn deall eu cyfrifoldebau wrth sicrhau gweithrediad cyflawn y Cynllun.

Strwythur Pwyllgorau

Pwyllgor Dwyieithrwydd

- 3.8 Mae'r Pwyllgor Dwyieithrwydd yn cynnwys aelodau'r Tîm Dwyieithrwydd ac yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Gwaith y coleg. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am drefnu a sicrhau gweithredu pob agwedd o'r Cynllun Iaith ar draws y coleg. Gwahoddir aelodau eraill o staff i fynychu'r Pwyllgor hwn pan fydd adrannau penodol dan sylw.
- 3.9 Gwahoddir dau fyfyrwr i fynychu cyfarfod y Pwyllgor yn flynyddol i adrodd yn ôl ar y trafodaethau ar ddwyieithrwydd yn sgil cyfarfodydd Strategaeth Llais y Myfyriwr fel a amlinellir yn yr adran Monitro isod.

Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd

- 3.10 Mae'r Pwyllgor Monitro yn cynnwys aelodau y Pwyllgor Dwyieithrwydd ynghyd ag aelodau o adrannau Cyngor a Chyfarwyddid, Marchnata, Technolegau Dysgu, Menter y coleg ynghyd a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol y Cwricwlwm. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod unwaith y tymor ac yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol gan adrodd i'r Pwyllgor Gwaith. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd yn cynnwys monitro gweithredu'r Cynllun Iaith a derbyn adroddiadau ar gynnydd yng nghyswllt y cynllun, Strategaeth Dwyieithrwydd, a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau monitro ffurfiol a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo.

Pwyllgor Gwaith

- 3.11 Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys Pennaeth y coleg ynghyd ag Uwch Reolwyr y coleg ac yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y mis. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro gwaith y Tîm Dwyieithrwydd ac i'r perwyl hwnnw caiff cofnodion ag argymhellion cyfarfodydd y Pwyllgor Dwyieithrwydd eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gan y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol. Yn ogystal cyflwynir adroddiadau monitro y Cynllun Iaith i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo.

Bwrdd y Llywodraethwyr

- 3.12 Caiff adroddiadau monitro y Cynllun Iaith a datblygiadau yng nghyswllt Strategaeth Addysg Bellach a Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad eu hystyried gan Bwyllgor Cwricwlwm a Safonau Bwrdd y Llywodraethwyr a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethol. Bydd Dwyieithrwydd yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau.
- 3.13 Yn ogystal mae'r coleg yn bwriadu pennu Llywodraethwyr gyda chyfrifoldeb penodol dros Dwyieithrwydd. Bydd yr aelod hwn yn derbyn adroddiadau ar gynnydd ym maes dwyieithrwydd ac yn mynychu o leiaf un cyfarfod o'r pwyllgor dwyieithrwydd yn flynyddol.

TREFNIADAU GWEINYDDOL Y CYNLLUN IAITH

- 3.14 Caiff Cynllun Iaith y coleg ei lunio gan y Tîm Dwyieithrwydd yn dilyn trafodaethau gyda staff ar draws y coleg. Cyflwynir y Cynllun i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Caiff y Cynllun terfynol ei gymeradwyo gan Fwrdd Llywodraethol y coleg.
- 3.15 Mae Cynllun Iaith y coleg ar gael i staff trwy fewnwyd staff y coleg.
- 3.16 Bydd staff newydd yn derbyn cyfarwyddid oddi wrth aelod o'r Tîm Dwyieithrwydd ar eu cyfrifoldebau yng nghyswllt y Cynllun Iaith fel rhan o'r Cyflwyniad Anwytho a drefnir gan yr Adran Bersonél.
- 3.17 Mae diweddarau staff ar ddatblygiadau dwyieithrwydd yn rhan sefydlog o Raglen Datblygu Staff y coleg gyda sesiwn ar ddwyieithrwydd wedi ei gynnwys ar bob diwrnod hyfforddiant staff.

POLISIAU A MENTRAU NEWYDD

- 3.18 Bydd pob un o bolisiau a gweithdrefnau'r coleg yn dangos ymrwymiad y coleg i egwyddorion y Cynllun Iaith a'r angen i hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Bydd unrhyw bolisiau neu fentrau newydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag fo'n briodol.
- 3.19 Mae holl bolisiau y coleg yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith. Wrth gymeradwyo mae'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i oblygiadau yng nghyd destun fframwaith strategol y coleg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y coleg. Yn ogystal rhoddir ystyriaeth lawn i reolaeth risg yng nghyd destun Cofrestr Risg y coleg a caiff oblygiadau ieithyddol eu hystyried yng nghyd destun y Cynllun Iaith.
- 3.20 Bydd y coleg yn asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisi neu fenter newydd gan wneud yn siŵr nad ydynt yn tansilio'r Cynllun Iaith.
- 3.21 Mae gweithdrefn llunio polisiau'r coleg yn cynnwys yr angen i gynnal arolwg *EIRA* ar bolisiau cyn eu cymeradwyo. Mae asesiad o gydraddoldeb ieithyddol yn rhan o'r archwiliad hwnnw.
- 3.22 Mae Uwch Reolwr Ansawdd y coleg yn gyfrifol am fonitro'r broses o lunio a diweddarau polisiau newydd a sicrhau eu bod yn derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith.
- 3.23 Bydd unrhyw fentrau a ymgwymerir gan y coleg yn cael eu datblygu gydag ystyriaeth lawn i egwyddorion y Cynllun Iaith.
- 3.24 Bydd cyfrifoldeb gan bob aelod o'r Pwyllgor Gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth a'r egwyddorion hyn o fewn eu hadrannau.
- 3.25 Ni chaiff unrhyw ran o'r Cynllun Iaith ei newid heb yn gyntaf sicrhau cytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

CYDYMFFURFIAD TRYDYDD PARTI

- 3.26 Bydd gofyn i unrhyw drydydd parti a gomisiynir i ddarparu gwasanaethau ar ran y Coleg wneud hynny oddi mewn i delerau'r Cynllun. Bydd trefniadaethau ysgrifenedig yn cyfarwyddo staff sy'n delio â chyrrff allanol ynghylch eu cyfrifoldebau, er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.
- 3.27 Bydd contractau gyda phob trydydd parti am ddarpariaethau ar ran y Coleg yn cynnwys cymalau a fydd yn berthnasol i gynnal ymrwymadau'r coleg o dan y Cynllun, a sicrhau cydymffurfiaeth drwy gyfrwng Cylchred Sicrhau Ansawdd y coleg sy'n monitro'r holl ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg, naill ai'n uniongyrchol

neu gan unrhyw drydydd parti dan oruchwyliaeth yr Uwch Reolwr Ansawdd.

- 3.28 Bydd y Coleg yn dilyn argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch gosod contractau a'r cyngor a ddarperir yn y ddogfen "Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg."

SGILIAU IEITHYDDOL STAFF

- 3.29 Er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd i siaradwyr Cymraeg ac i gyflawni amcanion y Cynllun Iaith bydd angen i'r coleg sicrhau fod staff yn berchen ar y sgiliau perthnasol. I'r perwyl hynny bydd y coleg yn mabwysiadu ac yn darparu rhaglen ddatblygu sgiliau ieithyddol. Bydd y rhaglen yn galluogi'r coleg i gadw golwg ar sgiliau ieithyddol presennol staff, adnabod anghenion ieithyddol i'r dyfodol a chymryd camau i ddiwallu'r anghenion hynny trwy recriwtio a hyfforddiant.

Asesu Sgiliau Ieithyddol Staff

- 3.30 O fis Medi 2011 bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog mewn cydweithrediad a'r Adran Bersonél yn trefnu arolwg o sgiliau ieithyddol staff presennol yn flynyddol gan ddefnyddio holiadur pwrpasol.
- 3.31 Bydd yr Arweinydd yn cyfarfod gyda staff addysgu yn unigol yn flynyddol i drafod unrhyw anghenion datblygu staff. Bydd yr Ymgynghorwyr Iaith wrth fonitro dwyieithrwydd o fewn adrannau cefnogol y coleg yn trafod anghenion datblygu staff yr adrannau hynny ac yn eu hannog i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Swyddi – Y Sefyllfa Bresennol

Cyfanswm staff y coleg: 189
Cyfanswm staff Addysgu llawn amser: 34
Cyfanswm staff Addysgu rhan amser: 41
Cyfanswm staff Addysgu cyswllt 14
Cyfanswm staff Cefnogi Busnes: 93
Cyfanswm staff Rheoli: 7

- 3.32 Yn ystod 2011-12 bwriedir cynnal arolwg manwl o sgiliau ieithyddol staff er mwyn rhoi darlun cyflawn o sgiliau ieithyddol ar ochr addysgu a chefnogi y coleg.

Staff Addysgu

- 3.33 Mae'r sefyllfa bresennol yng nghyswllt sgiliau ieithyddol staff addysgu fel a ganlyn

Campws Aberystwyth

O leiaf 1 darlithydd Cymraeg eu hiaith yn yr adrannau canlynol:

- Busnes a Gweinyddiaeth
- Gofal a Iechyd
- TGCh
- Rheolaeth Cefn Gwlad

Campws Aberteifi

O leiaf 1 darlithydd Cymraeg eu hiaith yn yr adrannau canlynol:

- Arlwyo
- Gwaith Saer
- Gwaith Brics
- Peirianeg
- Dodrefn
- Sgiliau Ysgrifenyddol a Gweinyddiaeth
- Gofal Plant
- TCCh
- Sgiliau Dysgu'n Annibynnol

Staff Cefnogi Busnes

- 3.34 Caiff y swyddi canlynol eu hystyried yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac mae delwyr presennol y swyddi yn Gymraeg eu hiaith.

Clerc Bwrdd y Llywodraethwyr

Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol

Rheolwr Datblygu Busnes

Rheolwr Cofnodi Myfyrwyr

Arweinydd Addysg Dwyieithog

Ymgynghorydd yr Iaith Gymraeg (Campws Aberystwyth)

Ymgynghorydd yr Iaith Gymraeg (Campws Aberteifi)

Swyddog Marchnata

Swyddog Cyngor a Chyfarwyddyd (Campws Aberystwyth)

Swyddog Cyngor a Chyfarwyddyd (Campws Aberteifi)

Swyddog Ewropeaidd a Gwasanaethau Hyfforddi

Cydlynnydd Technolegau Dysgu

Gweinyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Campws Aberystwyth)

Gweinyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr (Campws Aberteifi)

Swyddog Mynediadau/Arholiadau (Campws Aberystwyth)

Swyddog Mynediadau/Arholiadau (Campws Aberteifi)

Ysgrifennydd y Pennaeth

Dau Dderbynnydd (Campws Aberystwyth)

Dau Dderbynnydd (Campws Aberteifi)

Mentor llawn amser (Traws campws)
Mentor rhan amser (Campws Aberystwyth)
Mentor rhan amser (Campws Aberteifi)
2 aelod o Staff Cefnogi Dysgu

- 3.35 Yn dilyn ymddeoliad staff dros y ddwy flynedd olaf y mae'r coleg bellach wedi penodi Pennaeth newydd ynghyd â Chyfarwyddwr y Cwricwlwm (Campws Aberteifi) newydd. Roedd delwyr blaenorol y ddwy swydd hon yn Gymraeg eu hiaith. Yn anffodus ni fu'n bosib penodi siaradwyr Cymraeg i'r swyddi, er waethaf, yng nghyswllt swydd y Cyfarwyddwr, ailadrodd y broses hysbysebu a chyfweld. Mae'r ddau aelod o staff er hynny yn mynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.
- 3.36 Mae'r coleg yn cyflogi dau Gynghorydd y naill yn Aberystwyth a'r llall yn Aberteifi am 1 diwrnod yr wythnos. Y bwriad yn ystod y flwyddyn academaidd hon yw penodi un Cynghorydd ychwanegol Cymraeg eu hiaith.

Hyfforddiant leithyddol

- 3.37 Bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog yn trefnu rhaglen o gyrsiau mewnol yn flynyddol i ddiwallu anghenion ieithyddol cyffredinol staff cynorthwyol a staff addysgu. Bydd y rhaglen hon yn cynnwys y sesiynau canlynol

➤ **Blas ar Y Gymraeg**

Cwrs sylfaenol yn y Gymraeg a fydd yn addas i ddysgwyr a staff di-Gymraeg. Cynhelir y cwrs am awr yr wythnos dros gyfnod o 10 wythnos.

➤ **Llond Ceg o Gymraeg**

Cwrs Gloywi Iaith i ddysgwyr profiadol neu staff Cymraeg eu hiaith. Caiff y cwrs hwn ei deilwra ar gyfer yr aelodau staff sydd yn penderfynu mynychu.

Yn dilyn cwblhau'r cyrsiau hyn bydd yr Arweinydd yn cynghori staff ar y camau nesaf yn nhermau dilyniant gan gynnig gwybodaeth am raglenni addas megis Cymraeg i Oedolion.

➤ **Coffi a Sgwrs**

Yn ogystal a'r rhaglenni ffurfiol bydd yr Ymgynghorwyr Iaith yn trefnu sesiwn Coffi a Sgwrs am 20 munud unwaith bob pythefnos. Nod y sesiwn yw rhoi cyfle i staff ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.

Hyfforddiant Addysgu Dwyieithog

- 3.38 Bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog yn gyfrifol am drefnu rhaglen o hyfforddiant i'w gynnwys fel rhan o raglen datblygu

staff y coleg yn flynyddol i ddatblygu sgiliau cyflwyno ac addysgu yn ddwyieithog. Yn ogystal bydd yr Arweinydd yn annog staff i fynychu hyfforddiant allanol megis y Cynllun Sabothol.

Rhaglen Fentora

- 3.39 Bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog yn gyfrifol am drefnu rhaglen o fentora ar gyfer staff sydd wedi mynychu hyfforddiant ffurfiol.

Polisi Recriwtio

- 3.40 Bydd pob swydd gaiff ei hysbysebu gan y Coleg yn nodi'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n ddymunol neu yn hanfodol fel sy'n briodol. Y nod bob amser fydd penodi siaradwyr Cymraeg i swyddi allweddol – swyddi rheoli, swyddi dysgu a'r swyddi hynny lle mae cyfathrebu gyda myfyrwyr neu'r cyhoedd yn rhan allweddol o'r swydd.
- 3.41 Bydd hysbysebion swyddi y coleg bob amser yn ddwyieithog ag eithrio lle hysbysebir mewn cyhoeddiadau uniaith Gymraeg. Bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau o'r fath yn Gymraeg yn unig gyda brawddeg esboniadol yn Saesneg.
- 3.42 Bydd swydd ddisgrifiad a manyleb person pob swydd a hysbysebir gan y coleg ar gael yn ddwyieithog.
- 3.43 Yn unol â Strategaeth Adnoddau Dynol y coleg, byddwn yn adolygu'n gyson yr angen am staff Cymraeg eu hiaith mewn swyddi allweddol, ac yn ceisio symud siaradwyr Cymraeg i swyddi lle dynodwyd angen o'r fath, neu yn cyflogi siaradwyr Cymraeg o'r newydd. Bydd manylebion personau ar gyfer swyddi a ddynodwyd felly yn pennu'r angen am gymhwysedd yn y Gymraeg.
- 3.44 Yng nghyswllt swyddi lle nodwyd y Gymraeg yn hanfodol bydd y gallu i siarad Cymraeg yn un o'r blaenoriaethau wrth ddethol ymgeiswyr llwyddiannus yn y broses gyfweld a hysbysir ymgeiswyr bod disgwyl iddynt gwblhau'r ffurflen gais yn Gymraeg. Pan na fydd yn bosibl penodi staff Cymraeg eu hiaith i swyddi o'r fath, byddwn yn gwneud cyrraedd lefel dderbyniol o fod yn rhugl yn yr iaith o fewn cyfnod penodedig yn amod cyflogaeth.
- 3.45 Pan fod staff sydd yn medru'r Gymraeg yn gadael neu'n ymddeol nod y coleg fydd penodi siaradwr Cymraeg i gymryd eu lle pan fo hynny'n bosib ac yn briodol.

- 3.46 Bydd y coleg yn nodi'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol wrth recriwtio Llywodraethwyr. Bydd hefyd yn ceisio cynnal y cydbwysedd iaith ar y Bwrdd.
- 3.47 Bydd y coleg yn ceisio sicrhau ei fod yn cynnal nifer y staff rheolaethol sy'n ddwyieithog er mwyn adlewyrchu'r ardaloedd mae'n ei wasanaethu.
- 3.48 Pan ddaw swyddi rheolaethol yn wag bydd y Coleg, cyn hysbysebu, yn ystyried yn ofalus y gofynion ieithyddol ac yn categoreiddio'r swydd yn y ffordd briodol.
- 3.49 Bydd swyddi Pennaeth ac Uwch Reolwyr yn cael eu dynodi fel rhai lle mae sgiliau dwyieithog yn ddymunol neu'n hanfodol.
- 3.50 Bydd croeso i bob ymgeisydd am swydd wneud cais am gyfweiliad yn Gymraeg. Pan fo hynny'n briodol cynhelir y cyfweiliad yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg gan drefnu gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd pan nad yw pob aelod o'r panel cyfweled yn medru'r Gymraeg.

MONITRO

Cyfrifoldeb Monitro

- 3.51 Caiff Cynllun Iaith y coleg ynghyd a'r targedau yn y Cynllun Gweithredol eu monitro ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Dwyieithrwydd. Bydd y Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd yn dymhorol a chyflwynir adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwaith yn dymhorol.
- 3.52 Caiff targedau Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith hefyd eu cynnwys ym Mas-data Gweithredoedd Integredig y coleg. Caiff y bas-data hwn eu fonitro yn rheolaidd gan Dîm Rheoli Ansawdd y coleg dan oruchwyliaeth yr Uwch Reolwr Ansawdd. Cyflwynir y bas-data yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwaith.
- 3.53 Bydd y Tîm Dwyieithrwydd yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd i sylw Bwrdd yr Iaith. Caiff yr adroddiad hwn ei archwilio gan y Pwyllgor Gwaith a'i gyflwyno i Bwyllgor Cwricwlwm a Safonau'r Llywodraethwyr ac i Fwrdd y Llywodraethwyr.
- 3.54 Mae agenda pob cyfarfod o Bwyllgor Cwricwlwm a Safonau'r Llywodraethwyr yn cynnwys eitem ar Ddwyieithrwydd a chyflwynir adroddiad ar gynnydd yn y pwyllgor hwnnw gan y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol.

Dulliau Monitro

- 3.55 Er mwyn adrodd ar gynnydd bydd y Tîm Dwyieithrwydd yn cyfweld ag aelodau staff ac yn cynnal arolygon o wahanol agweddau ar waith y coleg. Yn ogystal bydd yr Adroddiad Monitro yn cynnwys adroddiadau oddi wrth yr Adran Gofnodi Myfyrwyr yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglir trwy'r gweithdrefnau cofnodi gwybodaeth canlynol:

Gweithdrefnau Cofnodi Gwybodaeth.

Gwybodaeth am Ddarpariaeth

- 3.56 Yn 2011 yn dilyn cais gan y coleg am arian Cronfa Datblygu Ansawdd bu Tîm Dwyieithrwydd y coleg yn gweithio ar brosiect penodol yn ymwneud a dulliau o gofnodi gwybodaeth am weithgaredd dwyieithog yn narpariaeth addysgu'r coleg. O ganlyniad i'r prosiect hwn mae'r coleg wedi datblygu ffurflenni a gweithdrefnau newydd i gofnodi gwybodaeth berthnasol. Ar hyn o bryd caiff y wybodaeth a gofnodir ei fwydo i system Cofnodi Myfyrwyr (MIS) y coleg ac mae'r Adran Gofnodi Myfyrwyr yn creu adroddiadau yn seiliedig ar y wybodaeth honno. Trwy greu adroddiadau o'r math mae'n bosib i'r coleg dargedu ymdrechion i ddatblygu darpariaeth dwyieithog/cyfrwng Cymraeg lle bo'r angen mwyaf. Mae'r weithdrefn o gasglu gwybodaeth yn cynnwys cyfarfodydd rhwng staff addysgu a'r Ymgynghorwyr Iaith unwaith bob tymor. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod meysydd i'w datblygu ac yn cynnig cyfle i drafod darpariaeth a dulliau newydd o gyflwyno themâu neu weithgareddau dwyieithog.

Gwybodaeth am Fyfirwyr

- 3.57 Yn 2011 cyflwynwyd gweithdrefn newydd o gyfweld myfyrwyr. Yn ogystal a chyfweliad gyda Swyddogion Cyngor a Chyfarwyddid y coleg bydd pob myfyrwr sydd yn gwneud cais i'r coleg yn cael ei gyfweld gan aelod o'r Tîm Dwyieithrwydd fel rhan o'r broses ymgeisio. Nod y cyfweliadau hyn yw canfod lefel ieithyddol myfyrwyr a'u anghenion yng nghyswllt yr iaith Gymraeg cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs. Caiff y wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon ei gofnodi ar system ymgeisio gyfrifiadurol y coleg. Caiff adroddiadau yn seiliedig ar anghenion ieithyddol myfyrwyr eu cynhyrchu gan yr Adran Gofnodi Myfyrwyr a'u cyflwyno i'r tiwtoriaid cwrs er mwyn eu galluogi i gynllunio a darparu'n effeithiol ar sail anghenion pob myfyrwr unigol.

Rhestr Wirio – Argraffiadau Cyntaf

- 3.58 O fis Medi 2011 bydd aelodau y Tîm Dwyieithrwydd yn gweithio ar y cyd gydag aelodau eraill yr Adran Gyfathrebu i gwblhau Rhestr Wirio yn fisol. Nod y Rhestr Wirio hon fydd monitro gwasanaeth cwsmer y coleg er mwyn sicrhau fod unigolion yn cael yr argraff cyntaf gorau posib. Bydd monitro gwasanaeth dwyieithog yn ffurfio rhan o'r Rhestr Wirio hon.
- 3.59 Bydd y Rhestr Wirio yn rhoi ystyriaeth i elfennau megis golwg gyffredinol y Dderbynfa, ymatebion staff y Dderbynfa ar y ffon, deunydd Marchnata, hysbysfyrddau ac arddangosfeydd.

Holiaduron Bodlonrwydd Myfyrwyr

- 3.60 Gofynnir i holl fyfyrwyr llawn amser y coleg gwblhau Holiadur Bodlonrwydd yn ystod tymor yr haf. Yn y gorffennol roedd yr holiadur hwn yn cynnwys cwestiwn yn gofyn i fyfyrwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn fodlon gyda'r darpariaeth dwyieithog ar eu cwrs. Mae'r holiadur hwn bellach yn cael ei adolygu a thrafodaethau ar y gweill rhwng y Tîm Dwyieithrwydd a'r Tîm Ansawdd ynghylch geiriad unrhyw adran yn ymwneud a dwyieithrwydd. Caiff yr ymatebion i'r holiaduron eu hystyried gan is-bwyllgorau gan gynnwys y Pwyllgor Dwyieithrwydd a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

Cynrychiolwyr Cwrs

- 3.61 Fel rhan o Strategaeth newydd Llais y Dysgwr y coleg, sefydlwyd gweithdrefnau newydd i ddethol Cynrychiolwr Myfyrwyr i bob cwrs. Mae'r drefn newydd yn rhoi cyfle i'r Cynrychiolwyr hyn gyfarfod nifer o weithiau y flwyddyn i drafod agweddau o ddarpariaeth a gwasanaethau y coleg. O fis Medi 2011 clustnodir un cyfarfod yn flynyddol lle bydd Dwyieithrwydd dan drafodaeth. Trosglwyddir manylion y trafodaethau hyn i sylw'r Pwyllgor Dwyieithrwydd a gwahoddir dau gynrychiolydd i gyflwyno argymhellion yn deillio o'r drafodaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor.

ANSAWDD

- 3.62 Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau y safonau uchaf posibl ac i gynnal yr un safonau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 3.63 Mae ansawdd darpariaeth a gwasanaeth y coleg yn cael ei archwilio yn ffurfiol trwy archwiliadau statudol Estyn.
- 3.64 Mae'r coleg hefyd wedi mabwysiadu gweithdrefnau sicrhau ansawdd sydd yn seiliedig ar ddulliau a gweithdrefnau Estyn.

Mae'r gweithdrefnau hynny yn ffurfio Cylchred Ansawdd blynyddol a weithredir gan aelodau Tîm Ansawdd y coleg.

- 3.65 Mae'r Archwiliadau Meysydd Dysgu sydd yn rhan o'r Gylchred Ansawdd yn cynnwys Dwyieithrwydd fel un o'r meysydd penodol a archwilir. Bydd yr archwiliad yn cynnwys arsylwi yr hyn sydd yn digwydd o fewn y dosbarth yn nhermau defnydd o iaith ynghyd a'r ddarpariaeth adnoddau. Bydd yr archwiliadau yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r Ymgynghorwyr Iaith fel rhan o'r broses. Bydd adroddiadau gwerthuso yn dilyn yr archwiliadau felly yn cynnwys adborth ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y dosbarth ynghyd a dadansoddiad cyffredinol o'r defnydd o'r Gymraeg ar y cwrs.
- 3.66 Ar lefel weithredol caiff gwaith addysgu'r Arweinydd Addysg Dwyieithog hefyd ei fonitro trwy'r Archwiliadau Mewnol.
- 3.67 Mae'r Gylchred Ansawdd hefyd yn cynnwys proses o Hunan Asesu sydd yn cynnwys Adrannau Cynorthwyol y coleg megis yr Adran Ddwyieithrwydd. Fel rhan o'r broses Hunan Asesu mae gofyn i'r Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol gwblhau holiadur hunan asesu gan amlinellu llwyddiannau a gwendidau'r Adran ynghyd â thargedau i'r dyfodol.
- 3.68 Caiff canlyniadau'r Gylchred Ansawdd eu harchwilio gan y Pwyllgor Gwaith.

SYLWADAU A CHWYNION

- 3.69 Gall myfyrwyr neu aelodau o staff y coleg gyflwyno eu hachwynion ynghylch gweithrediad y Cynllun o dan trefniadaethau cwynion y Coleg. Gall aelodau o'r cyhoedd tu allan i'r Coleg achwyn wrth y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol drwy gyfrwng Trefniadaeth Achwyn y coleg.
- 3.70 Croesewir sylwadau ac awgrymiadau yn ymwneud â gwella gweithrediad y Cynllun a gellir eu cyfeirio hwy hefyd at y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol, a fydd yn eu cyfeirio at ystyriaeth y pwyllgor rheoli priodol.
- 3.71 Bydd y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar y cwynion a'r sylwadau a dderbyniwyd.

HYRWYDDO A CHYHOEDDUSRWYDD

- 3.72 Hyrwyddir y Cynllun yn y dulliau canlynol:
 - Caiff datganiad i'r wasg ei ryddhau a fydd yn rhoi gwybodaeth am y Cynllun.

- Bydd testun y cynllun yn cael ei gynnwys ar dudalennau'r Coleg ar y Rhyngrwyd.
- Bydd Prosbectws y coleg yn cynnwys tudalen ar Wasanaethau a Darpariaeth Ddwieithog ac yn cyfeirio at y Cynllun Iaith.
- Cyflwynir gwybodaeth am ymrwymiad y coleg i ddwieithrwydd i ddarpar fyfyrwyr yn ystod eu cyfweiliadau cychwynnol gydag aelodau'r Tîm Ddwieithrwydd
- Bydd myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am y Cynllun yn ystod yr wythnos gyflwyno.
- Bydd aelodau'r staff yn derbyn gwybodaeth am y Cynllun trwy'r Sesiynau Ddwieithrwydd fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu Staff a bydd copïau ar gael iddynt ar Ryngrwyd Staff y coleg
- Bydd aelodau newydd o staff yn derbyn gwybodaeth am y Cynllun oddi wrth y Tîm Ddwieithrwydd yn ystod Sesiynau Anwytho staff newydd
- Bydd y Cynllun yn uno'r dogfennau a restrir yn y Ddogfen Gyfarwyddid sy'n atodol i Gynllun Gyhoeddi'r coleg

4. DATBLYGU ETHOS GYMREIG YN Y COLEG

- 4.1 Yn unol a Nod 4 Cynllun Strategol newydd y coleg mae Coleg Ceredigion wedi ymrwymo i greu sefydliad gwbl ddwyieithog sydd wedi ei leoli yn gadarn yn y gymuned leol ac sydd yn talu sylw i arferion ieithyddol, diwylliant ac anghenion y gymuned honno. Mae'r coleg hefyd yn awyddus i dynnu sylw at safle unigryw y coleg fel coleg addysg bellach wedi ei leoli yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg yn y Gymru gyfoes. I'r perwyl hwnnw bwriad y coleg yw sicrhau fod pob unigolyn sydd yn ymwneud a'r coleg yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn o'u cyswllt cyntaf gyda'r coleg.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

- 4.2 Mae'r coleg wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ym mhob agwedd o waith y coleg. O ganlyniad mae'r ddogfennaeth a ddarperir ar gyfer y cyhoedd ar gael yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae'r ddogfennaeth hyn yn cynnwys gohebiaeth cyffredinol, ffurflenni, anfonebau ac ati.
- 4.3 Trefniadau Cyfieithu –Ymgynghorwyr iaith sydd yn bennaf gyfrifol am gyfieithu dogfennaeth. Caiff unrhyw waith cyfieithu a gyflawnir ei wirio gan aelod arall o'r Pwyllgor Dwyieithrwydd. Mae'r drefn ar gyfer cyfieithu gwaith wedi ei osod ar Ryngrwyd Staff y coleg a cyfeirir at y drefn hon hefyd yn ystod y sesiynau cyflwyno a drefnir gan yr Adran Bersonél ar gyfer staff newydd. Bydd Ymgynghorwyr iaith y coleg yn trafod y weithdrefn ar gyfer cyfieithu yn ystod eu cyfarfodydd hwythau gyda staff unigol. Ar rai adegau pan yr ystyrir bod hynny'n addas cyflwynir gwaith i'w gyfieithu gan gyfieithwyr allanol.
- 4.4 I hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol mae Ymgynghorwyr iaith y coleg yn cyfarfod a Rheolwyr Adrannau Cynorthwyol y coleg yn rheolaidd i archwilio dogfennaeth ac i drafod anghenion cyfieithu.
- 4.5 Mae unrhyw ohebiaeth neu hysbysiadau a anfonir gan y Pennaeth neu aelodau'r Pwyllgor Gwaith at bob aelod o staff yn ddwyieithog gan gynnwys Adroddiad Diweddarau Misol y Pennaeth.
- 4.6 Lle bod Rheolwyr yn Gymraeg eu hiaith anogir hwy i anfon gohebiaeth mewnol yn ddwyieithog.
- 4.7 Caiff cyfarfodydd rhwng staff Cymraeg eu hiaith eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cofnodi trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft cynhelir holl gyfarfodydd staff yr Adran Gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

- 4.8 Mae Rhynggrwyd Staff y coleg yn gwbl ddwyieithog. Mae gweithdrefnau a ffurflenni mewnol y coleg ar gael mewn fersiynau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg.
- 4.9 Lle bo'r coleg yn darparu adroddiadau cyfrwng Saesneg i gyrff allanol megis AAS gwneir ymdrech i gyfieithu'r dogfennau lle bo hynny'n ymarferol gan gymryd i ystyriaeth y gost o gyfieithu a defnydd tebygol y ddogfen.
- 4.10 Bydd y coleg yn dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o ddyddiadau amlwg a phwysig yn y calendr diwylliannol Cymreig. Tynnir sylw hefyd at ddigwyddiadau cenedlaethol. I'r perwyl hwn mae'r Ymgynghorwyr Iaith yn trefnu arddangosfeydd, gweithgareddau a chystadlaethau wedi eu hanelu at fyfyrwyr a staff.

DATBLYGU ETHOS GYMREIG O FEWN Y CWRICWLWM

- 4.11 Er mwyn datblygu ethos Gymreig o fewn y Cwricwlwm mae'r coleg yn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau fod staff addysgu'r coleg wedi ymrwymo i'r Nod Strategol. Mae cynnwys sesiynau rheolaidd ar ddwyieithrwydd fel rhan o'r rhaglen datblygu staff felly yn tanlinellu pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymreig.
- 4.12 Mae'r prosiect Cofnodi Gwybodaeth am Weithgaredd Dwyieithog a gyfeiriwyd ati yn rhan 3 wedi cynnig cyfle i dynnu sylw at ymarfer da parthed creu ethos Gymreig. Wrth ddatblygu'r ffurflenni cofnodi penderfynwyd cynnwys adran a fyddai'n rhoi cyfle i ddarlithwyr nodi enghreifftiau lle mae sylw yn cael ei roi i Gymreictod boed hynny trwy gyfeirio at gwmnïau lleol neu genedlaethol neu trwy ddefnyddio cynnyrch lleol neu Gymreig. Yn ogystal mae'r Ymgynghorwyr Iaith wrth gyfarfod a staff addysgu fel rhan o weithdrefn y broses gofnodi yn medru tynnu sylw at arferion da a chynnig dulliau newydd o gyflwyno Gymreictod i'r cwrs.
- 4.13 O fis Medi 2011 fel a nodir yn Adran 5 y Cynllun mae'r coleg yn cyflwyno rhaglen o gysiau ieithyddol newydd. Yn ogystal a chynnig cyfle i ddatblygu sgiliau ieithyddol myfyrwyr bydd y cysiau hyn yn creu ymdeimlad o Gymreictod. Er enghraifft bydd myfyrwyr Cysiau Dodrefn y coleg yn dilyn cwrs Ymwybyddiaeth a fydd yn gofyn iddynt ymchwilio yn benodol i ddodrefn Cymreig a dulliau traddodiadol Cymreig o greu dodrefn.
- 4.14 Bydd cyfnod cyflwyno pob myfyriwr yn cynnwys cyflwyniad gan yr Ymgynghorwyr Iaith a fydd yn tynnu sylw i ymrwymiad y coleg i ddwyieithrwydd.
- 4.15 Fel a nodwyd uchod bydd y coleg yn dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o ddyddiadau amlwg a phwysig yn y calendr diwylliannol Cymreig gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen,

Dydd Gŵyl Dewi, Dydd y Dywysoges Gwenllïan a Dydd Llywelyn yr Ail a ddigwyddiadau cenedlaethol megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. I'r perwyl hwn mae'r Ymgynghorwyr Iaith yn trefnu arddangosfeydd, gweithgareddau a chystadlaethau wedi eu hanelu at fyfyrwyr a staff. Mae'r Ymgynghorwyr Iaith hefyd yn paratoi calendr bychan o'r dyddiadau hyn i'w dosbarthu i staff a thynnir sylw i'r digwyddiadau yn ystod cyfarfodydd cofnodi gwybodaeth yr Ymgynghorwyr Iaith gyda staff dysgu ym mis Tachwedd a mis Ebrill.

- 4.16 Yn ychwanegol i'r calendr uchod bydd rhaglen o weithgareddau cymdeithasol dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn cael ei threfnu i fyfyrwyr gan gynnwys digwyddiadau megis Gemau Rygbi, teithiau ac ymweliadau. Hysbysebwr rhain ar hysbysfyrddau sydd wedi eu pennu ar gyfer gweithgaredd Cymraeg a dwyieithog.

DELIO A'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

- 4.17 Nod Coleg Ceredigion yw cynnig gwasanaeth cwsmer sydd yn gwbl ddwyieithog. I'r perwyl hwn mae'r Coleg wedi ymrwmo i gynllun Siarter Iaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyngor Ceredigion ac ym mis Mai 2011 cyflwynwyd Tystysgrif Aur i'r coleg i gydnabod y gwasanaeth hwnnw. Bwriad y coleg yw sicrhau bod y gwasanaethau yn cyrraedd y safonau angenrheidiol sicrhau tystysgrif aur yn flynyddol.

Cyfathrebu ar lafar

- 4.18 Mae'r coleg yn croesawu ymholiadau ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.19 Mae staff y Dderbynfa ar y ddau gampws yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu ymdrin a'r cyhoedd ym mha bynnag iaith y mae'r unigolyn yn ei ddewis boed yn Gymraeg neu Saesneg.
- 4.20 Wrth gyfarch y cyhoedd dros y ffon rhoddir cyfarchiad cychwynnol dwyieithog ar bob achlysur Mae negeseuon peiriannau ateb, pan ddefnyddir hwy, yn ddwyieithog.
- 4.21 Mae arwyddion yn y Dderbynfa yn dangos y gellir defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ac mae staff y Dderbynfa yn gwisgo bathodynau sydd yn dangos eu bod yn medru'r Gymraeg.
- 4.22 Ar yr adegau anarferol hynny pan fydd staff y Dderbynfa yn absennol gwneir pob ymdrech i ddefnyddio staff Cymraeg eu hiaith i gymryd eu lle. Os na fydd hyn yn bosibl bydd y bobl sy'n gwneud galwadau ac yn dymuno gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cynnig eu trosglwyddo i siaradwyr Cymraeg

eraill a fydd ar gael, a allai eu helpu gyda'u hymholiad. At y diben hwn, bydd rhestr yn cael ei chadw wrth switsfyrddau ac mewn derbynfeydd o enwau'r unigolion a fydd yn gallu cynnig cyngor yn Gymraeg.

- 4.23 Lle bydd angen i ymholwyr siarad ag aelod arbennig o'r staff nad yw yn ddwyieithog, byddwn bob amser yn gwneud ymdrech i sicrhau bod aelod arall o'r staff ar gael a fydd yn gallu rhoi'r wybodaeth yn Gymraeg lle mae angen hynny.
- 4.24 Mae staff rheng flaen y coleg sydd mewn cyswllt rheolaidd gyda'r cyhoedd yn medru'r Gymraeg gan gynnwys Swyddogion Cyngor a Chyfarwyddid, Swyddog Marchnata a Staff Derbynfa.

Cyfathrebu yn Ysgrifenedig

- 4.25 Mae'r coleg yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.26 Mae'r coleg wedi ymrwymo i ymdrin a gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, boed yn gopi caled neu ar ffurf electronig, mewn dull sydd o'r union safon a'r dull o ymdrin a gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg.
- 4.27 Mae papur pennawd y Coleg yn cynnwys brawddeg yn egluro bod croeso i'r cyhoedd ohebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 4.28 Bydd unrhyw un sy'n cyfathrebu â'r Coleg yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg, wedi ei lofnodi.
- 4.29 Bydd yr ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yr un mor sydyn â'r ymateb i ohebiaeth yn Saesneg. Ni fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.
- 4.30 Pan fydd yn hysbys ei bod yn well gan dderbynyddion gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yna byddwn yn dechrau'r ohebiaeth yn Gymraeg. Lle nad yw dewis iaith y derbynydd yn hysbys, byddwn yn anfon yr ohebiaeth yn ddwyieithog. Bydd gohebiaeth a fydd yn dilyn sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg yn cael eu paratoi yn Gymraeg, oni bai fod y derbynydd wedi nodi i'r gwrthwyneb.
- 4.31 Mae'r holl lythyrau safonol a'r cylchlythyrau a gynhyrchir gan y Coleg yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.32 Mae staff sydd yn cynhyrchu dogfennaeth naill ai i'w arddangos yn y Coleg neu i gyfathrebu â defnyddwyr y Coleg yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno'r wybodaeth hon yn ddwyieithog. Pan fydd aelodau o'r staff Cymraeg eu hiaith nad ydynt yn hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg yn cynhyrchu gwybodaeth o'r fath

byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael iddynt i'w galluogi i gynhyrchu deunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r aelodau hynny o'r staff sydd yn methu cynhyrchu deunydd ysgrifenedig yn Gymraeg.

- 4.33 Mae'r coleg wedi mabwysiadu'r polisi canlynol wrth ddarparu dogfennaeth neu ohebiaeth dwyieithog.
- 4.34 Dylid defnyddio dwy golofn ochr yn ochr ar gyfer deunydd dwyieithog gan osod y Gymraeg ar yr ochr chwith mewn du a'r Saesneg ar yr ochr dde mewn glas (pan fod defnyddio lliw yn addas)

Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.35 Pan fydd y coleg yn cynnal cyfarfod cyhoeddus croesawir cyfraniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau hawliau cyfartal beth bynnag fo iaith y cyfrannwr a'r gwrandawyr. Gall hyn olygu trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd lle bo hynny'n addas. Ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r fath, rhoddir cyhoeddusrwydd dwyieithog a fydd yn gwneud yn glir y gall yr iaith Gymraeg gael ei defnyddio yn y cyfarfod.
- 4.36 Bydd y coleg yn sicrhau fod unrhyw gyfarfod cyhoeddus yn adlewyrchu ymrwymiad y coleg i gynnal ethos ddwyieithog. Bydd dogfennaeth cyfarfodydd cyhoeddus lle bo hynny'n bosibl yn ddwyieithog.

Cyfweliadau ac Ymgynghoriadau

- 4.37 Pan fydd yn well gan unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn gwneud pob ymdrech i gynnal cyfweliadau ac ymgynghoriadau eraill gyda staff y coleg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yng nghyswllt cyfarfodydd anffurfiol pan fydd yr unigolyn angen gwybodaeth arbenigol gan aelod arbennig o'r staff nad yw'n medru'r Gymraeg efallai na fydd yn hyn yn bosibl bob amser. Pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol gwneir trefniadau gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd ar gyfer cyfweliadau swyddi lle nad yw pob aelod o'r panel cyfweld yn medru'r Gymraeg.
- 4.38 Caiff pob cyfweliad cychwynnol i ymgeiswyr i'r Coleg ei gynnal gan Swyddogion Cyngor a Chyfarwyddyd Cymraeg eu hiaith a chaiff y cyfweliad ei gynnal yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd. Bydd y broses gyfweld hefyd yn cynnwys cyfweliad gyda aelod o'r Tîm Dwyieithrwydd a chynhelir y cyfweliad hwn unwaith eto yn ôl dewis iaith yr ymgeisydd.
- 4.39 Mae pob aelod o staff y Dderbynfa'n siarad Cymraeg.

Dulliau Cyfathrebu Eraill

- 4.40 Bydd y Coleg yn darparu gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng dulliau electronig a chyfrifiadurol, yn ogystal â dulliau eraill, o'r un safon ddwyieithog â'r rhai a amlinellwyd uchod.

WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

Delwedd Gorfforaethol

- 4.41 Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog sy'n gwneud defnydd yr un mor amlwg o'r Gymraeg a'r Saesneg. Adlewyrchir hyn yng nghyhoeddiadau ac ar arwyddion a cherbydau'r Coleg, yn ogystal â phenawdau llythyrau a ffurflenni safonol, cardiau busnes a'r holl nwyddau a deunyddiau a gynhyrchir gan y Coleg.
- 4.42 Telir sylw ar bob achlysur i gyflwyno delwedd ddwyieithog, ac mae personél marchnata allweddol yn rhugl eu Cymraeg ac yn ymwybodol o'r angen i drosglwyddo delwedd ddwyieithog y Coleg ar bob achlysur.
- 4.43 Adnabyddir y coleg fel Coleg Ceredigion yn y Gymraeg a'r Saesneg ac nid oes cyfieithiad i'r enw. Mae logo'r coleg yn dwyn yr enw hwn.

Arwyddion

- 4.44 Oddi mewn i'r Coleg ac ar dir sydd yn eiddo i'r coleg mae'r arwyddion a'r wybodaeth yn ddwyieithog, gyda statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg o ran maint, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 4.45 Mae gwybodaeth a deunydd arddangos oddi mewn i'r Coleg neu ar safleoedd a ddaw o dan reolaeth y coleg neu a ddefnyddir i hyrwyddo'r Coleg yn gwbl ddwyieithog gydag amlygrwydd cyfartal yn cael ei roi i'r Gymraeg a'r Saesneg. Pan fydd deunydd a gyfieithwyd wedi ei baratoi ar arwyddion gan un nad yw'n medru'r Gymraeg, yna byddant yn cael eu gwirio cyn eu gosod i fyny er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.
- 4.46 Mae Ymgynghorwyr Iaith y coleg yn cynnal arolwg anffurfiol yn wythnosol o holl arwyddion a manau arddangos y coleg .

Gwefan y Coleg

- 4.47 Mae Gwefan y coleg yn gwbl ddwyieithog. Pan fydd gwybodaeth yn cael ei ddiweddarau gwneir yn sicr bod fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu newid ar yr un pryd. Mae unrhyw

ymholiadau a wneir trwy Wefan y coleg yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig fel a nodir uchod.

- 4.48 Mae gwefan y coleg yn cynnwys tudalen ar ddwyieithrwydd sydd yn cynnwys amlinelliad o'r ddarpariaeth ymwybyddiaeth iaith, manteision astudio yn ddwyieithog a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sydd yn dymuno gwneud hynny.

Safleoedd Rhwydweithio

- 4.49 Mae presenoldeb y coleg ar safleoedd megis *Facebook* a *Twitter* yn gwbl ddwyieithog ac mae unrhyw negeseuon a osodir ar y safleoedd hyn gan staff y coleg yn gwbl ddwyieithog.

Deunydd Marchnata

- 4.50 Mae pob deunydd marchnata megis Prosbectws y Coleg, taflenni cyhoeddusrwydd, ffurflenni cais, a gwybodaeth gyffredinol am y Coleg yn ddwyieithog, ac mae'r Gymraeg yn derbyn statws sy'n gyfartal â'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol hefyd i'r holl ddeunydd ysgrifenedig, deunydd i'w arddangos, a phob deunydd arall a gynhyrchir er mwyn cyfathrebu â'r cyhoedd ynghylch y Coleg a'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig.

Y Wasg

- 4.51 Cyhoeddir hysbysiadau i'r wasg a datganiadau cyhoeddus eraill yn ddwyieithog.
- 4.52 Mae'r holl hysbysebu a wneir gan y Coleg yn y Wasg yn ddwyieithog ac yn rhoi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r holl hysbysiadau cyhoeddus, datganiadau swyddogol, a hysbysebu i recriwtio a fydd yn ymddangos yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog, ac yn rhoi amlygrwydd cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r egwyddor hwn i'w gymhwyso hefyd i ddeunydd tebyg a osodir ar hysbysfyrddau ac mewn manau cyhoeddus eraill.
- 4.53 Ysgrifennwyd trefniadaeth ar gyfer y staff marchnata er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r uchod.

HYBU ASTUDIO YN DDWYIEITHOG I DDARPAR MYFYRWYR

- 4.54 I Goleg Ceredigion un o'r prif anawsterau wrth geisio datblygu darpariaeth dwyieithog cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol oedd sicrhau fod gofyn am y ddarpariaeth honno. Dros y blynyddoedd mae'r coleg wedi canfod fod darpar fyfyrwyr yn enwedig disgyblion ysgolion gan gynnwys ysgolion penodol dwyieithog yn gwneud dewis pendant i astudio yn Saesneg ôl-16.

4.55 Mae'r coleg wrth greu Cynllun Iaith Newydd yn awyddus i fynd i'r afael a'r arferion hyn gan geisio dadansoddi yn fwy manwl y rhesymau tu ôl i'r penderfyniadau i astudio yn Saesneg. Yn ogystal a chreu gwell dealltwriaeth o'r rhesymau hyn mae'r coleg wedi ymrwymo i fabwysiadu gweithdrefnau newydd a fydd yn annog darpar fyfyrwyr i astudio yn ddwyieithog. Rhoddwyd rhai o'r gweithdrefnau hyn ar y gweill yn nhymor yr Haf 2011 ond y bwriad yw eu datblygu ymhellach yn ystod 2011-12 gan adolygu'r gweithdrefnau yn nhymor yr Haf 2012. Yn y gorffennol teimlwyd efallai fod y coleg yn gweithredu system o "optio fewn" i addysg ddwyieithog lle mae'r pwysau ar fyfyrwr i dynnu sylw at y ffaith ei fod eisiau astudio yn ddwyieithog. Nod y coleg felly yw creu amgylchedd ddysgu gwbl ddwyieithog lle mae'r gwrthwyneb yn wir hynny yw system o "optio allan" lle bydd gofyn i fyfyrwyr dynnu sylw at y ffaith **nad** yw e/hi eisiau astudio yn ddwyieithog.

4.56 Mae'r coleg yn benodol wedi nodi y dulliau canlynol i annog darpar fyfyrwyr i astudio yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sgil hynny i'w cynnal a'u cynorthwyo yn eu hastudiaethau.

1. Canfod sgiliau ieithyddol myfyrwyr cyn cofrestru yn y coleg trwy

- greu cysylltiadau agos gyda ysgolion yr ardal er mwyn cael gwybodaeth ar iaith astudio blaenorol
- cynnwys cyfweiliad gyda'r Ymgynghorwyr Iaith i bob darpar fyfyrwr fel rhan o'r broses gyfweild lle gellir nodi anghenion ieithyddol a nodi unrhyw ymatebion negyddol
- adolygu'r wybodaeth a gofnodir ar ffurflen gyfweild statudol y coleg er mwyn cynnwys darlun mwy cywir o allu ieithyddol myfyrwyr a dileu'r cyfle i fyfyrwyr optio allan o astudio yn ddwyieithog cyn dechrau'r cwrs

2. Annog a chefnogi myfyrwyr i astudio yn ddwyieithog trwy:

- gynhyrchu deunyddiau marchnata penodol i amlinellu manteision astudio y ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg
- sicrhau presenoldeb Ymgynghorwyr Iaith ar stondin y coleg ar achlysuron marchnata megis Eisteddfod yr Urdd
- cyflwyno pob darpar fyfyrwr i'r Ymgynghorwyr Iaith ar eu cyswllt cyntaf a'r coleg ee yn ystod nosweithiau agored ac fel rhan o'r broses gyfweild
- cydweithio gydag ysgolion lleol i ddatblygu dulliau o hybu astudio dwyieithog ymysg disgyblion ysgol
- darparu Clybiau Ar Ôl Ysgol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 ysgolion lleol er mwyn hybu astudiaethau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg

- sicrhau fod pob myfyriwr yn derbyn cefnogaeth unigol wrth yr Ymgynghorwyr Iaith trwy sesiynau unigol neu sesiynau grŵp- caiff hwn ei dreialu yn y lle cyntaf trwy'r raglen diwtorial yn 2011-12
- sicrhau bod tiwtoriaid yn gweithio'n agos gyda'r Ymgynghorwyr Iaith i ganfod anghenion ieithyddol eu myfyrwyr
- sicrhau fod tiwtoriaid yn defnyddio'r Ymgynghorwyr Iaith mewn sesiynau dosbarth lle bo hynny'n briodol
- fel rhan o'r ddarpariaeth Sgiliau Cyfathrebu cyfrwng Cymraeg newydd bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog yn gweithio gyda chyflogwyr lleol i drefnu ymweliadau i weithleoedd a fydd yn dangos manteision astudio yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg

Marchnata Darpariaeth Dwyieithog

- 4.57 Prif gyfrwng marchnata darpariaeth y coleg yw'r Prosbectws a'r Wefan.
- 4.58 Yn y Prosbectws ac ar y Wefan mae'r coleg wedi neilltuo tudalen benodol ar Ddwyieithrwydd. Mae'r dudalen hon nid yn unig yn nodi cyfleoedd i astudio yn ddwyieithog ond hefyd yn rhoi manylion am y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeirir hefyd at gyrsiau sgiliau ieithyddol a manteision astudio yn ddwyieithog.
- 4.59 Mae manylion cyrsiau unigol yn y Prosbectws ac ar y Wefan hefyd yn nodi cyfleoedd i astudio yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.60 Mae'r Adran Farchnata yn llunio eitemau rheolaidd i'r Wasg sydd yn benodol yn tynnu sylw at lwyddiannau myfyrwyr sy'n astudio yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.61 Yn unol a'r cynlluniau a amlinellwyd eisoes, yn ystod tymor yr Haf 2011 mae'r Adran Farchnata ynghyd a'r Tîm Dwyieithrwydd yn bwriadu cyhoeddi dwy daflen cyhoeddusrwydd newydd – y naill yn cynnwys esiamplau o fyfyrwyr sydd yn astudio yn ddwyieithog yn y coleg a'r llall yn tynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd yn y gweithle gan gynnwys esiamplau o weithwyr lleol sydd yn gweithio'n yn ddwyieithog o ddydd i ddydd. Y nod wrth ddarparu'r taflennu hyn yw eu dosbarthu i ddarpar fyfyrwyr mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd ac i ddisgyblion ysgolion lleol.
- 4.62 Eto yn unol a'r cynlluniau uchod mae Arweinydd Addysg Dwyieithog y coleg yn datblygu cysylltiadau gydag ysgolion yr ardal i drafod dulliau o gydweithio er mwyn hybu'r syniad o

astudio yn ddwyieithog/trwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr ol-16. Trefnwyd rhaglen o gyfarfodydd cychwynnol ar gyfer Tymor yr Haf 2011.

5. DATBLYGU SGILIAU CYFATHREBU

- 5.1 Y nod wrth gynllunio a chreu darpariaeth addysgiadol yng Ngholeg Ceredigion yw sicrhau ein bod yn datblygu sgiliau ein myfyrwyr er mwyn eu galluogi i ymgymryd a chyfleoedd addysg pellach neu ymuno a'r gweithle. Yng Ngheredigion mae canran uchel o'n myfyrwyr yn ymuno a'r gweithle lleol ac yn hynny o beth mae datblygu eu sgiliau cyfathrebu Cymraeg yn bwysig i'w llwyddiant yn y gweithle dwyieithog hwnnw. Yn aml iawn mae sgiliau cyfathrebu ein myfyrwyr yn datblygu yn naturiol o astudio rhywfaint o'u cwrs yn ddwyieithog a datblygu geirfa alwedigaethol newydd ac hefyd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol o fewn yr ystafell ddosbarth.
- 5.2 Er hynny gellir dadlau nad oes cysondeb yn y cyfleoedd hyn i ddatblygu yn enwedig pan fo myfyrwyr yn dewis astudio yn Saesneg neu lle mae'r myfyriwr yn ddi-Gymraeg. Trwy drefnu rhaglen sgiliau cyfathrebu mae'n bosib mynd i'r afael a'r anghysondeb hwn tra'n cynnig cefnogaeth pellach i fyfyrwyr sydd eisoes yn astudio yn ddwyieithog
- 5.3 Wrth ddatblygu rhaglen gwella sgiliau cyfathrebu nod hir dymor y coleg yw cynnig rhaglen a fydd ar gael i bob myfyrwyr ta beth fo ei gefndir ieithyddol a chyfrwng ieithyddol ei prif gwrs. Mae'r coleg o'r farn fod cynnig rhaglen fel hyn yn sicrhau nad yw myfyrwyr yn gweld darpariaeth ieithyddol fel rhywbeth ychwanegol neu diangen sydd yn fwrn ar nifer bychan o fyfyrwyr yn unig. Mae datblygu rhaglen o'r math ar draws y coleg yn gyfan yn allweddol i lwyddiant y rhaglen.
- 5.4 Yn dilyn apwyntio Arweinydd Addysg Dwyieithog newydd mae'r coleg wedi ymchwilio yn drwyadl i wahanol unedau posib ac wedi penderfynu peilota rhaglen o unedau Agored addas ar gyfer 2011-12. Bydd y cyfnod peilot 2011-12 yn canolbwyntio ar Gampws Aberteifi ond gyda pheth darpariaeth hefyd ar gampws Aberystwyth gyda'r nod o sefydlu rhaglen gyflawn ar draws y ddau gampws o fis Medi 2012 yn dilyn adolygu y cynllun peilot yn ystod tymor yr Haf 2012.
- 5.5 Ar gampws Aberteifi cynigir y rhaglen newydd hon i fwyafrif helaeth cyrsiau Blwyddyn 1 o fis Medi 2011 gydag un neu ddau eithriad lle bu anhawster amserlennu.
- 5.6 Bydd Arweinydd Addysg Dwyieithog yn gyfrifol am ddysgu'r unedau ar nifer penodol o gyrsiau tra gofynnir i diwtoriaid arferol Cymraeg eu hiaith i ddysgu 'r unedau ar eu cyrsiau hwythau.
- 5.7 I sicrhau llwyddiant y rhaglen newydd hon penderfynwyd y byddai'n fuddiol dod a'r tiwtoriaid fydd yn gyfrifol am y rhaglen at ei gilydd. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol eisoes a'r bwriad fydd

cynnal cyfarfodydd cyson er mwyn cynnig cefnogaeth a thrafod unrhyw anawsterau. Caiff y cyfarfodydd hyn eu harwain gan yr Arweinydd Addysg Dwyieithog. Eto i sicrhau llwyddiant penderfynwyd cynnig cymorth pellach trwy ddefnyddio aelodau'r Tîm Dwyieithrwydd i baratoi pecynnau portffolio ac asesu cyffredin at ddefnydd tiwtoriaid y rhaglen. Mae'r pecynnau hyn eisoes ar waith gyda'r nod o gyflwyno pecynnau i diwtoriaid cyn diwedd tymor yr Haf 2011.

5.8 Wrth greu pecynnau gwaith ar gyfer yr unedau hyn rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu ymwybyddiaeth a sgiliau iaith yng nghydestun y pwnc y mae myfyrwyr yn ei astudio. Mae'r unedau yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dysgu gan gynnwys defnydd o siaradwyr gwadd ac ymweliadau a'r gweithle. Er enghraifft mae'r uned ar gyfer myfyrwyr Gwaith Coed yn cynnwys ymweliadau gyda chwmnïau adeiladu dwyieithog lleol a chyfle i edrych ar ddulliau adeiladu traddodiadol Gymreig.

5.9 Mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer campws Aberteifi fel a ganlyn:

CWRS	UNED
Diploma Lefel 1 mewn gwaith coed	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
PTA Gwaith coed	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
Diploma Lefel 1 mewn gwaith trywel	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
PTA Trywel	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
Diploma Lefel 1 mewn Arlwyo Proffesiynol	Cyflwyniad i Iaith a Diwylliant
Diploma Lefel 2 mewn Arlwyo Proffesiynol	Cyflwyniad i Iaith a Diwylliant
Tystysgrif CACHE Lefel 2 mewn Gofal ac Addysg plant	Darllen stori, canu a chyflwyno rhifau i blant bach
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI 1	Sgiliau iaith
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI 2	Sgiliau iaith
Diploma Lefel 3 mewn Technoleg Cerbydau (Chwaraeon Modur) BI2	Cyflwyniad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Tystysgrif Lefel 2 mewn gweithgareddau Ffitio Cerbydau	Cyflwyniad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Tystysgrif Lefel 2 mewn creu Dodrefn	Cyflwyniad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Tystysgrif Lefel 3 mewn creu Dodrefn	Cyflwyniad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhaglen Cyn-TGAU	Cyflwyniad i Gymru a'r Gymraeg

Diploma Lefel 3 estynedig mewn Technoleg Gwybodaeth	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
Diploma mewn Gweinyddiaeth (Busnes Proffesiynol)	Defnyddio'r Gymraeg i Ymdrin a Chwsmeriaid a chleientiaid yn y Gweithle
Sgiliau Byw'n Annibynnol	Astudiaethau Diwylliant Cymru

5.10 Ar gampws Aberystwyth y gobaith y w adlewyrchu y trefniant sydd eisoes ar waith ar gampws Aberteifi ac mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer campws Aberystwyth ar hyn o bryd fel a ganlyn.

CWRS	UNED
Diploma Lefel 1 mewn Arlwyio Proffesiynol	Cyflwyniad i Iaith a Diwylliant
Diploma Lefel 1 mewn Arlwyio Proffesiynol	Cyflwyniad i Iaith a Diwylliant
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI1 (Grŵp Cyfrwng Cymraeg)	Sgiliau Iaith
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI1 (Grŵp Dwyieithog)	Sgiliau Iaith
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI 2 (Grŵp Cyfrwng Cymraeg)	Sgiliau Iaith
Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant BI2 (Grŵp Dwyieithog)	Sgiliau Iaith
Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth	Hanes tref glan mor / Hanes Tref Gymreig
Celfyddydau Perfformio	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant

5.11 Ar gampws Aberystwyth i ychwanegu at y ddarpariaeth uchod bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog o fis Medi 2011 yn trefnu rhaglen hyfforddiant iaith Blas ar Y Gymraeg i'w gynnal unwaith yr wythnos yn ystod yr awr ginio ac yn agored i unrhyw fyfyrwr.


5.12 I'r myfyrwyr hynny a fydd yn dychwelyd i'w hail flwyddyn ym mis Medi 2012 y gobaith fydd cynnig cyfle i astudio uned ychwanegol neu uned tebyg ar lefel uwch.

5.13 Yn ystod tymor yr Haf 2012 cynhelir adolygiad o'r cynllun peilot yn seiliedig ar arolwg o farn myfyrwyr a staff a chanlyniadau yn nhermau cyrhaeddiad. Caiff adroddiad ar y cynllun ynghyd ag argymhellion ar gyfer 2012-13 eu hystyried gan yr Is bwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

6. DATBLYGU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG NEU DDWYIEITHOG AR GYFER DYSGWYR OL 16

CYNLLUNIO A RHEOLI CWRICWLWM

6.1 Mae strwythur rheoli Cwricwlwm y coleg fel a ganlyn:



Cynllunio Cwricwlwm y Coleg

- 6.2 Cyfrifoldeb Y Pwyllgor Gwaith yw cymeradwyo Cwricwlwm y coleg. Mae'r gymeradwyaeth hon yn seiliedig ar argymhellion a lunnir gan yr Is bwyllgor Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi a gadeirir gan un o Gyfarwyddwyr y Cwricwlwm ac sydd yn cynnwys Cyfarwyddwyr y Cwricwlwm a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol y Cwricwlwm ynghyd a'r Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Arweinyddion y Cwricwlwm yn mynychu'r cyfarfod hwn pan fydd cynllunio cwricwlwm dan sylw.
- 6.3 Mae presenoldeb y Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol ar yr is-bwyllgor hwn yn allweddol i sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth lawn i oblygiadau newidiadau yn nhermau dwyieithrwydd. Bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithrwydd hefyd yn adrodd i'r Pwyllgor hwn yn dymhorol ar gynnydd mewn cysylltiad a dwyieithrwydd ar wahanol feysydd darpariaeth. Cyflwynir yr adroddiadau a gyfeiriwyd atynt yn Adran 3 sef Adroddiad ar Anghenion Ieithyddol Darpar Fyfyrrwyr (yn seiliedig ar y broses gyfweld) ac adroddiadau Cofnodi Gweithgaredd Dwyieithog i'r Pwyllgor hwn yn ogystal fel y gellir rhoi ystyriaeth lawn i anghenion ieithyddol myfyrrwyr wrth ddatblygu a chynllunio cwricwlwm y coleg.

- 6.4 Yn dymhorol cynhelir cyfarfod rhwng Cyfarwyddwyr ac Is-gyfarwyddwyr y Cwricwlwm ac aelodau o'r Pwyllgor Dwyieithrwydd gyda'r bwriad o drafod datblygiadau mewn perthynas a dwyieithrwydd ac i nodi unrhyw gynnydd neu ddiffyg.
- 6.5 Yn ystod y cyfarfodydd hyn rhoddir ystyriaeth i:
- Anghenion leithyddol Myfyrwyr
 - Anghenion leithyddol staff
 - Defnydd Myfyrwyr o gymorth y rhaglen Help Llaw
 - Adroddiadau Cofnodi Gweithgaredd Dwyieithog
 - Meysydd i'w datblygu

Cynyddu darpariaeth

- 6.6 Mae'r coleg yn cydnabod fod y gallu i gynyddu darpariaeth presennol yn ddibynnol ar staff ac adnoddau. Mae gallu ieithyddol staff a hyfedredd staff presennol i ddysgu yn ddwyieithog yn sicr yn allweddol i gyflawni cynnydd sylweddol.
- 6.7 Er mwyn cyflawni'r cynydd yn seiliedig ar allu staff bydd y coleg dros oes y Cynllun Iaith hwn yn anelu at weithredu rhaglen ddatblygu sgiliau ieithyddol staff a rhaglen fentora. Fel cam cyntaf bydd y coleg yn sicrhau bod yr Arweinydd Addysg Dwyieithog yn derbyn hyfforddiant ar ddulliau mentora trwy raglen Fentora Sgiliaith. Yn ogystal bydd y coleg yn sicrhau fod o leiaf 2 aelod o staff priodol yn mynychu Cynllun Sabothol Sgiliaith yn flynyddol. Bydd y coleg yn anelu at roi rhaglen hyfforddiant a mentora briodol yn ei lle erbyn Medi 2011.
- 6.8 Ar lefel cyrsiau unigol bydd y coleg yn parhau i weithio gyda thiworiaid yn unigol i gynyddu darpariaeth dwyieithog a chyfrwng Cymraeg ar y cwrs. Gwneir hyn trwy gyfarfodydd rhwng yr Ymgynghorwyr Iaith a'r tiwtoriaid yn unigol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn dadansoddi 'r ddarpariaeth gyfredol ac yn clustnodi meysydd i'w datblygu.
- 6.9 Yn y gorffennol bu'r coleg yn sicrhau cynnydd trwy gytuno unedau ar bob cwrs i'w dynodi fel unedau dwyieithog gan gynyddu nifer yr unedau ar bob cwrs yn flynyddol. Wrth adolygu'r arfer hwn cafwyd fod y dull hwn yn medru bod yn gamarweiniol. Er enghraifft gall yr unedau a gynigir ar gwrs newid o flwyddyn i flwyddyn ac yn yr un modd gall cynnwys uned penodol newid o flwyddyn i flwyddyn. Yn aml iawn felly roedd gosod targedau yn seiliedig ar unedau penodol yn anymarferol ac yn medru rhoi darlun camarweiniol o gynnydd.
- 6.10 Wrth sefydlu'r drefn Cofnodi Gweithgaredd Dwyieithog newydd fel a amlinellir yn Adran 3 mae gan y coleg ddarlun llawer yn fwy cynhwysfawr o'r hyn sydd yn digwydd mewn gwirionedd ar bob

cwrs yng nghyswllt dwyieithrwydd boed hynny yn weithgaredd ffurfiol neu anffurfiol.

- 6.11 Bwriad y coleg felly yn y cynllun newydd hwn yw ceisio sicrhau cynnydd ar draws holl ddarpariaeth y coleg gan ddefnyddio'r adroddiadau Gweithgaredd Dwyieithog fel sail i osod targedau. Bydd y Pwyllgor Dwyieithrwydd yn argymhell meysydd i'w blaenoriaethu yn flynyddol yn seiliedig ar ddarpariaeth dwyieithog cyfredol ac ar wybodaeth ynghylch anghenion myfyrwyr

CYDWEITHIO A PHARTNERIAETHAU

- 6.12 Mae Coleg Ceredigion yn aelod o nifer o wahanol bartneriaethau strategol ar draws Ceredigion a thu hwnt.

Addysg Uwch

- 6.13 Mae gan y coleg Femorandwm Cytundeb gyda Phrifysgol Aberystwyth
- 6.14 Mae'r coleg yn aelod o'r Brifysgol Sector Ddeuol gyda Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant sydd hefyd yn cynnwys Coleg Sir Gar a Choleg Penfro.
- 6.15 Fel aelodau'r Grŵp Rhannu Adnoddau o dan y bartneriaeth gyda Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant mae Coleg Ceredigion wedi nodi'r angen i sefydlu is-grŵp i drafod rhannu adnoddau a gwasanaethau dwyieithog. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynol is-grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o Brifysgol y Drindod Dewi Sant ,Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gar a Choleg Penfro yn ddiweddar gyda'r nod o barhau i ddatblygu'r bartneriaeth yng nghyswllt dwyieithrwydd.

Ysgolion Uwchradd

- 6.16 Mae'r coleg yn ddiweddar wedi datblygu Memorandwm Cytundeb rhwng y coleg, Ysgol Gyfun Emlyn ac Ysgol Uwchradd Aberteifi yn ne'r sir a rhwng y coleg, Ysgol Uwchradd Penglais ac Ysgol Gyfun Penweddig yng ngogledd y sir. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gydag ysgolion Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan yng nghanol y sir i ddatblygu Memorandwm tebyg.
- 6.17 Bydd y cytundebau hyn yn sicrhau cydweithio parhaol gyda'r ysgolion gyda phwyslais ar rannu adnoddau ac ehangu cyfleoedd dysgu trwy'r Sir yn unol a gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. Rhoddir ystyriaeth lawn i gyfleodd dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y ddarpariaeth honno.

- 6.18 Bydd Coleg Ceredigion hefyd yn parhau i ddarparu Clybiau Ar ôl Ysgol i ddisgyblion ysgol y sir ac i gynnig opsiynau galwedigaethol dwyieithog a chyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ysgol ar y ddau gampws a thrwy dysgu peripatetig i bob ysgol yng Ngheredigion, Gogledd Sir Gaerfyrddin a Gogledd Sir Benfro.
- 6.19 Bydd yr Arweinydd Addysg Dwyieithog trwy gysylltiadau gyda'r ysgolion yn cydweithio ar ddulliau o annog disgyblion ysgol i ddilyn cyrsiau addysg bellach/uwch yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhwydwaith 14-19

- 6.20 Mae Coleg Ceredigion yn aelod o Rwydwaith 14-19 Ceredigion sydd yn cynnwys penaethiaid yr ysgolion uwchradd lleol ynghyd a chynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg. Mae'r rhwydwaith yn gyfrifol am ddatblygu agenda Llwybrau Addysgu 14-19 yng Ngheredigion. Fel rhan o weithgareddau a gytunwyd trwy'r Rhwydwaith mae'r coleg ar hyn o bryd:
- yn darparu cyrsiau Adeiladwaith dwyieithog i ddisgyblion ysgol ar gampws yr ysgol yn Aberaeron, Dyffryn Teifi a Llanbedr Pont Steffan.
 - yn trefnu gweithgareddau seiliedig ar y gweithle i fyfyrwyr y coleg a myfyrwyr ysgol
 - yn darparu cyrsiau Prosesu Testun. Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad a'r Amgylchedd yn ddwyieithog i ysgolion Penweddig a Thregaron.

Dyfodol Dwyieithog

- 6.21 Mae'r coleg yn aelod o weithgor Dyfodol Dwyieithog a sefydlwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion. Blaenoriaeth gweithgor Dyfodol Dwyieithog yw anelu at wella gwasanaethau yn y Gymraeg i drigolion Ceredigion trwy drafod darpariaeth bresennol a chynnig gwelliannau boed hynny o fewn y sector gyhoeddus neu'r sector breifat.

DARPARIAETH GYFREDOL

Tiwtorialau

- 6.22 Caiff rhaglen diwtorial ei chynllunio yn flynyddol ar gyfer pob myfyriwr ar sail cwrs. Mae'r rhaglen hon yn cyfuno sesiynau unigol gyda thiwtor cwrs gyda sesiynau ar themâu penodol megis Datblygiad Cynaliadwy, Cyngor Gyrfaoedd ac ati i'r grŵp cyfan. Caiff nifer o'r sesiynau ar themâu penodol eu harwain gan siaradwyr allanol.

- 6.23 Lle bod tiwtor cwrs yn siarad Cymraeg caiff sesiynau unigol gyda siaradwyr Cymraeg eu cynnal yn y Gymraeg. Bydd sesiynau gan siaradwyr allanol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fo'r siaradwyr hynny yn medru'r Gymraeg.
- 6.24 Bydd rhaglen diwtorial myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn cynnwys sesiynau unigol gyda'r Ymgynghorwyr Iaith i drafod cynnydd ac anghenion ieithyddol. Yn ystod 2011-12 lle nad yw uned ar Gyfathrebu neu Ymwybyddiaeth Iaith yn rhan o gwrs myfyriwr bydd y rhaglen diwtorial hefyd yn cynnwys sesiwn ar Ymwybyddiaeth Iaith.

Mentora a Chefnogaeth Fugeiliol

- 6.25 Mae Adran Gwasanaethau Myfyrwyr y coleg yn gyfrifol am gynllunio rhaglen o gefnogaeth ar draws y coleg sydd yn cynnwys gwasanaethau cwnsela a mentora. Mae'r tri Mentor yn siaradwyr Cymraeg a caiff sesiynau mentora neu gwnsela eu cynnal yn iaith gyntaf y myfyriwr sy'n derbyn cefnogaeth.

Canolfannau Dysgu

- 6.26 Mae Canolfan Ddysgu ar y ddau gampws lle gall myfyrwyr ofyn am gymorth unigol oddi wrth Ymgynghorwyr Dysgu. O'r pedwar Ymgynghorwr a gyflogir mae tri ohonynt yn medru cynnig cymorth yn ddwyieithog.

Cynorthwyr Dysgu

- 6.27 Cyflogir chwech Cynorthwy-ydd Dysgu yn y coleg i gynorthwyo myfyrwyr a chanddynt anghenion dysgu unigol. Mae tri o'r rhain yn siarad Cymraeg. Yn ogystal clustnodwyd un ohonynt fel mentor iaith i weithio gyda'r Cynorthwyr eraill i ddatblygu eu sgiliau cynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg.

Profiad Gwaith

- 6.28 Trefnir rhaglen o brofiad gwaith i fyfyrwyr ar gyrsiau penodol gan gynnwys Adeiladwaith, Gofal Plant ac Arlwyo.
- 6.29 Bydd tiwtoriaid cwrs Adeiladwaith yn pennu cyflogwyr addas ar gyfer myfyrwyr gan gymryd i ystyriaeth anghenion ieithyddol y myfyriwr. Mae myfyrwyr Gofal Plant yn ymgymryd a phrofiad gwaith mewn ysgolion lleol dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.
- 6.30 Cynigir profiad gwaith i fyfyrwyr Arwylo ar gampws Aberteifi ym Mwyty pwrpasol y coleg sydd yn cynnal polisïau dwyieithog y coleg.

- 6.31 Bydd y coleg yn datblygu bas data o leoliadau profiad gwaith gan nodi lleoliadau dwyieithog i'r dyfodol.
- 6.32 Anogir myfyrwyr i ymgymryd a phrofiad gwaith dwyieithog gan diwtoriaid cwrs o pan fo hynny'n bosib ac yn briodol.

Asesiadau

- 6.33 Bydd Ymgynghorwyr Iaith yn nodi anghenion asesu myfyrwyr yn eu cyfweiliadau cychwynnol.
- 6.34 Gall pob myfyriwr gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg a lle nad yw'r tiwtor yn medru'r Gymraeg caiff y gwaith hwnnw ei gyfieithu gan yr Ymgynghorwyr Iaith.
- 6.35 Bydd y coleg yn ceisio annog myfyrwyr i gael eu hasesu yn y Gymraeg trwy er enghraifft ddatblygu dulliau asesu ar lafar lle bo hynny'n briodol. .
- 6.36 Lle caiff systemau asesu allanol eu defnyddio e.e. profion ar-lein, bydd y coleg bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod yr asesu hynny ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Gwasanaeth Cyngor a Chyfarwyddid

- 6.37 Mae'r coleg yn cyflogi dau Swyddog Cyngor a Chyfarwyddid – un ar bob campws. Mae'r ddau aelod o staff hynny yn medru'r Gymraeg a chynigir gwasanaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Adnoddau Dysgu

- 6.38 Mae Ymgynghorwyr Iaith y coleg yn gyfrifol am weithio gyda staff dysgu i sicrhau bod adnoddau dwyieithog ar gael ar draws y ddarpariaeth gan ymgymryd a gwaith cyfieithu pan fo angen. Bydd yr Ymgynghorwyr yn cadw cofnod o'r adnoddau dwyieithog sydd ar gael ar bob cwrs gan flaenoriaethu gwaith cyfieithu i'r adrannau hynny lle bo'r angen mwyaf.
- 6.39 Mae prif dudalennau Amgylchedd Ddysgu Rhithwir Moodle y coleg yn gwbl ddwyieithog. Mae Cydlynnydd Moodle y coleg yn siaradwr Cymraeg. Mae sicrhau fod y safle gyfan yn ddwyieithog yn rhan o rôl y Cydlynnydd a bydd yntau yn gweithio gyda staff dysgu a'r Ymgynghorwyr Iaith i sicrhau bod tudalennau neu adnoddau yn cael eu cyfieithu pan fo angen.

CWRICWLWM

Cwricwlwm Cyfredol

Cyrsiau Llawn-amser Campws Aberteifi

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Enghreifftiau o Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Diploma Arlwyo Lefel 1	x	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp, profiadau'n gysylltiedig â gwaith, Siaradwyr gwadd dwyieithog
Diploma Arlwyo lefel 3	x	✓	Profiadau'n gysylltiedig â gwaith, Cyfeiriad at fwydydd Cymreig
CGC2 Arlwyo ac Estyn Croeso Blwyddyn 2	✓	✓	Profiadau'n gysylltiedig â gwaith Cyfeiriad at fwydydd Cymreig
Prentisiaeth Gwaith Trywel	✓	✓	Profiadau'n gysylltiedig â gwaith, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Diploma Lefel 1 Gwaith Trywel	✓	✓	Profiadau'n gysylltiedig â gwaith, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Dyfarniad Canolradd Gwaith Trywel	✓	✓	Profiadau'n gysylltiedig â gwaith
Prentisiaeth Gwaith Saer	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Diploma Lefel 1 Gwaith Saer	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Enghreifftiau o Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Dyfarniad Canolradd Gwaith Saer	x	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Tystysgrif Gweithgareddau Ffitio Cerbydau	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac Ymweliadau dwyieithog eu natur
Diploma Cenedlaethol Technoleg Cerbydau (Chwaraeon Modur)	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Diploma Cenedlaethol Technoleg Cerbydau (Chwaraeon Modur) Blwyddyn 2	✓	✓	Ymweliadau dwyieithog eu natur a chyfleoedd cysylltiedig â gwaith
Tystysgrif Lefel 3 mewn Creu Dodrefn	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Tystysgrif Lefel 3 mewn Adnewyddu Dodrefn	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Lefel 2 Creu Dodrefn	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Enghreifftiau o Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Lefel 2 Adnewyddu Dodrefn	✓	✓	Siaradwyr Gwadd dwyieithog ac ymweliadau dwyieithog eu natur, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
TGAU	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp. Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Cyn-TGAU	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp. Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Diploma mewn Addysg a Gofal Plant Blwyddyn 1	✓	✓	Cyfleoedd profiad gwaith mewn lleoliad dwyieithog, Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp
Tystysgrif Lefel 2 mewn Addysg a Gofal Plant	✓	✓	Cyfleoedd profiad gwaith mewn lleoliadau dwyieithog
Tystysgrif Cenedlaethol mewn TG Lefel 3	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp; Defnydd o Wefannau Cymreig/Dwyieithog
Tystysgrif Cenedlaethol mewn TG Lefel 2	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp; Defnydd o Wefannau Cymreig/Dwyieithog
Diploma mewn Gweinyddiaeth	✓	✓	Defnyddio myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn gwaith grŵp, Ymweliadau dwyieithog eu natur

Cyrsiau Llawn-amser Campws Aberystwyth

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Tystysgrif Theatr, Ffilm a Celfyddydau Gweledol	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Gwaith Grŵp Cymraeg,

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
			Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd
Diploma mewn creu Cyfryngau Creadigol	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Defnydd o fyfyrwyr Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd.
Dyfarniad Cenedlaethol mewn creu Cyfryngau - Teledu a Ffilm	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Lefel 3 Diploma Ategol mewn Celf a Dylunio	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Ymweliadau dwyieithog eu natur
Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celf a Dylunio	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Siaradwyr Gwadd, Ymweliadau dwyieithog eu natur.
Diploma Cenedlaethol mewn Celf a Dylunio	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Gwaith Grŵp Cymraeg.
Diploma Lefel 2 mewn Busnes/Bagl. Cymraeg	x	✓	Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd Gwadd, Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Gwaith Grŵp Cymraeg
Diploma Lefel 3 mewn Busnes	✓	✓	Siaradwyr Gwadd
Tystysgrif Lefel 3 mewn Busnes	x	✓	Ymweliadau dwyieithog eu natur
Diploma Coginio Proffesiynol	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Gwaith Grŵp Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith.

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Diploma Lefel 2 mewn Coginio Proffesiynol	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Gwaith Grŵp Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith.
Mynediad Galwedigaethol	✓	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Gwaith Grŵp Cymraeg, Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg
Rhaglen Safon Uwch	✓	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Ymweliadau dwyieithog eu natur
Mynediad i Addysg Gyffredinol	✓	✓	Defnydd o Siaradwyr Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Mynediad i Addysg Uwch – Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Cyfleoedd Profiad Gwaith
Diploma mewn Addysg a Gofal Plant (Grwp Dwyieithog)	✓	✓	Gwaith Grŵp, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg, Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Diploma mewn Addysg a Gofal Plant (Grwp Cyfrwng Cymraeg)	✓	✓	Gwaith Grŵp, Ymweliadau dwyieithog eu natur; Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg, Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig

Cwrs	Darlithwyr Cymraeg ar gael	Adnoddau Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg	Elfennau Eraill Dwyieithog/Cyfrwng Cymraeg
Lefel 2 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	✓	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Cyfleoedd Profiad Gwaith
Lefel 2 Diploma mewn Addysg a Gofal Plant	✓	✓	Gwaith Grŵp, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg, Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig
Diploma mewn Astudiaethau Iechyd	x	✓	Cyfeiriad at sefydliadau Cymreig
Diploma Cenedlaethol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	✓	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Cyfleoedd Profiad Gwaith, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd
Lefel 2 Tystysgrif Cenedlaethol mewn TGCh	x	✓	Defnydd o Wefannau Cymreig/Dwyieithog
Diploma a Thystysgrif Cenedlaethol mewn TGCh - OCR	x	✓	Defnydd o Wefannau Cymreig/Dwyieithog
Lefel 3 Diploma Estynedig mewn Celfyddydau Perfformio	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Perfformiadau Cymraeg, Gwaith Grŵp Cymraeg, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd.
BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Perfformio	x	✓	Cyfeiriad at ddiwylliant Cymreig, Perfformiadau Cymraeg, Gwaith Grŵp Cymraeg, Cyfleoedd Profiad Gwaith Cymraeg, Ymweliadau dwyieithog eu natur, Siaradwyr Gwadd

- 6.40 Gall Elfennau Eraill gynnwys dulliau megis defnydd o siaradwyr gwadd, ymweliadau, gwefannau, gwaith grŵp, sesiynau geirfa ayb.
- 6.41 Wrth ddatblygu darpariaeth dwyieithog cyfrwng Cymraeg nod y coleg yw cynyddu'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm drwy ddatblygu sgiliau addysgu dwyieithog/cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r canran o adnoddau sydd ar gael yn ddwyieithog/Gymraeg.
- 6.42 Bydd y coleg yn blaenoriaethu adrannau a meysydd lle nad oes darlithwyr Cymraeg eu hiaith a meysydd lle mae'r canran o adnoddau yn isel. Bydd y weithdrefn o gofnodi gweithgaredd a amlinellwyd yn Adran 3 yn allweddol i'r broses hon.

Clybiau Ar Ôl Ysgol

- 6.43 Datblygwyd y cynllun Clybiau Ar Ôl Ysgol rai blynyddoedd yn ôl mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol gyda'r bwriad o roi blas i ddisgyblion ysgol ar feysydd galwedigaethol. Caiff y Clybiau eu cynnig i ddisgyblion ysgol Blynyddoedd 9 a 10 yr ysgolion uwchradd lleol gyda dewis o bynciau gan gynnwys Adeiladwaith, Arlwy, Peirianeg a Ffasiwn. Darperir 3 rhaglen yn ystod y flwyddyn a gwahoddir ysgolion i anfon disgyblion i un o'r rhaglenni hyn. Caiff y Clybiau eu cynnal rhwng 4yp a 6yh un noson yr wythnos dros gyfnod o 10 wythnos. Ar ddiwedd y sesiwn mae myfyrwyr yn derbyn Tystysgrif Cyrhaeddiad.

7. CYNLLUN GWEITHREDU

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
1. GWEITHREDU A MONITRO/CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH					
1.1	Pwyllgor Dwyieithrwydd i sicrhau gweithredu 'r Cynllun Iaith	Pwyllgor Dwyieithrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Cofnodion cyfarfodydd misol y Pwyllgor Dwyieithrwydd
1.2	Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd i gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith	Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Adroddiadau Monitro blynyddol
1.3	Dwyieithrwydd yn eitem sefydlog ar Agenda Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau y Llywodraethwyr	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol		Hyd at 2013	Agenda Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau y Llywodraethwyr
1.4	Penodi Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ddwyieithrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol		Hydref 2011	Cofnodion cyfarfodydd Llywodraethol
1.5	Gosod y Cynllun Iaith ar Ryngrwyd y Staff	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol		Medi 2011	Rhyngrwyd staff

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
1.6	Cyflwyniad ar y Cynllun Iaith ac Ymwybyddiaeth iaith i'w gynnwys yng nghyflwyniad Anwytho staff newydd	Adran Bersonél a'r Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	
1.7	Sesiwn ar Ddwyieithrwydd i'w gynnwys ym mhob Diwrnod Datblygu Staff	Uwch Reolwr Ansawdd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Rhaglenni Datblygu Staff
1.8	Polisiâu a Gweithdrefnau newydd i roi ystyriaeth lawn i egwyddorion y Cynllun Iaith	Aelodau'r Pwyllgor Gwaith	Pwyllgor Monitro Dwyieithrwydd	Hyd at 2013	
1.9	Cynnal arolwg blynyddol sgiliau ieithyddol staff	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Rhagfyr 2011 Ragfyr 2012 Ragfyr 2013	Canlyniadau'r Arolwg
1.10	Darparu rhaglen o hyfforddiant staff gan gynnwys "Blas ar y Gymraeg", "Llond Ceg o Gymraeg" a Sesiynau Coffi a Sgwrs gan sicrhau fod o leiaf 10 aelod o staff yn cymryd mantais o'r rhaglen yn flynyddol.	Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Rhaglen cyrsiau
1.11	Recordio Gweithgaredd Dwyieithog trwy gyfarfodydd tymhorol rhwng tiwtoriaid a'r Ymgynghorwyr Iaith	Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Adroddiadau MIS

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
1.12	Cyfweld pob darpar myfyrwr fel rhan o broses Cyngor a Chyfarwyddid y coleg	Ymgynghorwyr laith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Adroddiadau MIS
1.13	Cwblhau Rhestr Wirio Gwasanaeth Cwsmer yn fisol	Ymgynghorwyr laith ar y cyd a staff yr Adran Gyfathrebu	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Mis Medi 2011 ymlaen	
1.14	Cynnal un cyfarfod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr cwrs i drafod materion dwyieithrwydd	Ymgynghorwyr laith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Mis Medi 2011 ymlaen	
1.15	Parhau i dalu sylw i ddwyieithrwydd yng ngweithdrefnau a dogfennaeth archwiliadau mewnol	Uwch Reolwr Ansawdd	Cyfarwyddwyr y Cwricwlwm	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau Archwiliadau Mewnol
1.16	Cynnwys cyfweiliadau gyda'r Ymgynghorwyr laith fel rhan o brosesau Archwiliadau Mewnol	Uwch Reolwr Ansawdd	Cyfarwyddwyr y Cwricwlwm	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau Archwiliadau Mewnol
2. DATBLYGU ETHOS GYMRAEG					
2.1	Parhau i gynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog	Swyddog Cyhoeddusrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
2.2	Cynnwys tudalen newydd ar Ddwyieithrwydd yn y Prosbectws	Swyddog Cyhoeddusrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Hyd at 2013	Prosbectws 2012-13 Prosbectws 2013-14 Prosbectws 2014-15
2.3	Parhau i gynnal gwefan gwbl ddwyieithog gan ddiweddarau yn y ddwy iaith ar yr un pryd	Swyddog Cyhoeddusrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	Gwefan
2.4	Cynnwys cyflwyniad ar ymwybyddiaeth iaith i bob myfyriwr yn ystod y Cyfnod Cyflwyno i fyfyrwyr	Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Cwricwlwm	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	Pecynnau Cyfnod Cyflwyno
2.5	Cyfarfod gyda Rheolwyr Adrannau Cynorthwyol i adolygu dogfennaeth mewn cyswllt ieithyddol	Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	
2.6	Cytuno calendr o weithgareddau yn flynyddol i nodi dyddiadau o bwys yn y calendr diwylliannol Cymreig	Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2011 31 Awst 2012 31 Awst 2013	Calendr Cofnodion Pwyllgor Dwyieithrwydd
2.7	Darparu o leiaf 2 achlysur cymdeithasol cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn gydag o leiaf 20 myfyriwr yn mynychu	Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
2.8	Cynnal pob cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog gan ddarparu offer cyfieithu pan fo hynny'n briodol	Pwyllgor Gwaith	Pennaeth	Medi 2011 ac ymlaen	
2.9	Creu cysylltiadau gydag ysgolion lleol	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	
2.10	Creu a chadw bas data o wybodaeth wrth ysgolion am iaith dysgu blaenorol myfyrwyr	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Rhagfyr 2011 ac ymlaen	Bas data
2.11	Datblygu dulliau i hybu darpar fyfyrwyr i astudio'n ddwyieithog ar y cyd gydag ysgolion lleol	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	
2.12	Datblygu deunyddiau marchnata i amlinellu manteision astudio yn ddwyieithog a chreu o leiaf 2 daflen bwrpasol bob blwyddyn	Arweinydd Addysg Dwyieithog, Ymgynghorwyr Iaith a Swyddog Cyhoeddusrwydd	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	
2.13	Adolygu ffurflenni cais a chyfweld y coleg i roi darlun mwy cywir o anghenion ieithyddol	Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Rhagfyr 2011	

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
2.14	Rhoi sylw i ddwyieithrwydd ar achlysuron marchnata	Arweinydd Addysg Dwyieithog ac Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	
2.15	Sicrhau presenoldeb Ymgynghorwyr Iaith mewn nosweithiau agored	Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	
2.16	Cynnwys sesiynau cefnogaeth un-i-un gyda'r Ymgynghorwyr Iaith fel rhan o'r rhaglen diwtorial	Cyfarwyddwr y Cwricwlwm	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	Rhaglen Diwtorial
2.17	Parhau i gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr trwy gynllun Help Llaw a thrwy gynorthwyo yn y dosbarth ar ofyn tiwtoriaid	Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol		
2.18	Llunio rhaglen o ymweliadau i weithleoedd dwyieithog a Chymraeg	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ac ymlaen	

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
3. DATBLYGU SGILIAU CYFATHREBU					
3.1	Darparu rhaglen o gyrsiau OCN Ymwybyddiaeth a Sgiliau Chyfathrebu i bob Grŵp blwyddyn gyntaf ar gampws Aberteifi	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011	
3.2	Darparu rhaglen o gyrsiau OCN Ymwybyddiaeth a Sgiliau Chyfathrebu i Grwpiau blwyddyn gyntaf Teithio a Thwristiaeth, Gofal Plant, Celfyddydau Perfformio ac Arlwygo ar gampws Aberystwyth	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011	
3.3	Darparu rhaglen o gyrsiau OCN Ymwybyddiaeth a Sgiliau Chyfathrebu i bob Grŵp blwyddyn gyntaf ar gampws Aberystwyth	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2012	
3.4	Darparu cwrs “Blas ar y Gymraeg” yn agored i unrhyw fyfyrwr ar gampws Aberystwyth yn ystod awr ginio	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011	

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
3.5	Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda thiworiaid sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen Sgiliau Cyfathrebu	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	Medi 2011 ymlaen	
4. DATBLYGU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG NEU DDWYIEITHOG					
4.1	Trefnu dadansoddiad blynyddol o sgiliau ieithyddol staff er mwyn targedu hyfforddiant staff yng nghyswllt cynlluniau'r coleg ar gyfer datblygu cyrsiau a modylau cyfrwng Cymraeg	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Rhagfyr 2011 31 Rhagfyr 2012 31 Rhagfyr 2013	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.2	Darparu Hyfforddiant Methodoleg 3-diwrnod i staff addysgu, gyda lleiafswm o 2 bob blwyddyn academaidd yn mynychu'r Cynllun Sabothol, i alluogi staff i ddysgu neu diwtora trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn unol a chynlluniau'r coleg ar gyfer cynyddu cyrsiau/modylau cyfrwng Cymraeg.	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Gorffennaf 2012 31 Gorffennaf 2013 31 Gorffennaf 2014	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
4.3	Darparu hyfforddiant ar gyfer o leiaf 2 aelod ychwanegol o staff bob blwyddyn i gynorthwyo gyda chreu portffolio, asesu a gwirio gwaith cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol a chynlluniau'r coleg ar gyfer cynyddu cyrsiau/modylau cyfrwng Cymraeg.	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Gorffennaf 2012 31 Gorffennaf 2013 31 Gorffennaf 2014	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.4	Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth i bob aelod o staff llawn-amser a rhan amser	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Gorffennaf 2012 31 Gorffennaf 2013 31 Gorffennaf 2014	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.5	Darparu rhaglen fentora i alluogi'r 2 Ymgynghorydd Iaith a'r Arweinydd Addysg Dwyieithog i weithio fel mentoriaid iaith i gynorthwyo aelodau staff i ddatblygu hyder a chynyddu eu hymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Rhagfyr 2011	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
4.6	Gweithredu rhaglen fentora gydag: - o leiaf 3 aelod o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol a - o leiaf 2 aelod o staff sydd angen cymorth ychwanegol i fagu hyder i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Gorffennaf 2012	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.7	Gwerthuso llwyddiant cyfnod cychwynnol y rhaglen fentora a chynllunio rhaglen ddilynol 2 flynedd	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.8	Cynnal y rhaglen fentora Ebrill 2012– Awst 2014.	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.9	Datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf dau faes bob blwyddyn gan sicrhau bod yr adnoddau ar gael i eraill tu allan i'r coleg	Ymgynghorwyr Iaith	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	
4.10	Adroddiad tymhorol ar ddwyieithrwydd i'w gyflwyno i'r Is Bwyllgor Cynllunio Cwricwlwm	Pwyllgor Dwyieithrwydd	Cyfarwyddwyr y Cwricwlwm	Medi 2011 ymlaen	Cofnodion yr Is Bwyllgor Cynllunio Cwricwlwm

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
4.11	Sefydlu proses i fonitro modylau a chyrsgiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chadw rhestr gyfredol o'r ddarpariaeth	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Rhestr y Ddarpariaeth .
4.12	Sicrhau isafswm o 24 dysgwr ym mhob blwyddyn academaidd sy'n dilyn cyrsiau neu fodylau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog	Ymgynghorwyr Iaith ac Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau MIS
4.13	Sicrhau cynnydd o o leiaf 4 modiwl bob blwyddyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau MIS .
4.14	Sicrhau cynnydd o o leiaf 2 weithgaredd addysgu sy'n cyrraedd isafswm 50% LA 25	Ymgynghorwyr Iaith ac Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau MIS
4.15	Cynnydd o o leiaf 15 myfyriwr bob blwyddyn yn cwblhau cyrsiau Cymraeg gan gynnwys Cymraeg i oedolion	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Adroddiadau MIS

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
4.16	<p>Creu a chyflwyno i LICC adroddiad yn dadansoddi data:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Myfyrwyr fu'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ii. Eu dewis o gwrs AB a natur ieithyddol y cwrs iii. Rhesymau dros beidio dilyn llwybr cyfrwng Cymraeg/dwyieithog; iv. nifer y myfyrwyr ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i bob blwyddyn a chymhariaeth ar gyfer y 3 mlynedd flaenorol 	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Rhagfyr 2011 31 Rhagfyr 2012 31 Rhagfyr 2013	Adroddiadau Monitro i Fwrdd yr Iaith .
4.17	Adolygu Holiadur Boddhad Myfyrwyr a chynnwys cwestiynau ar anghenion myfyrwyr yng nghyswllt cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chysiau iaith yn yr holiadur hwn ag unrhyw holiaduron eraill perthnasol.	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Holiaduron

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
5. CYFARFODYDD					
5.1	<p>Mynychu cyfarfodydd Llywio Prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd bob 6 mis i ystyried adroddiadau ar gynnydd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. dadansoddiad cynnydd yn erbyn allbynnau; ii. argymhellion ar weithredu pellach yn ystod ac ar ôl cyfnod y prosiect ; iii. ac adroddiadau eraill 	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2011 31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Cofnodion cyfarfodydd
5.2	<p>Mynychu o leiaf 2 gyfarfod bob blwyddyn i ddatblygu rhwydweithiau lleol a chydweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu partneriaethau i ddarparu cyrsiau/modylau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog</p>	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Cofnodion cyfarfodydd

	Gweithred	Cyfrifoldeb	Cyfrifoldeb Monitro	Dyddiad Targed	Tystiolaeth
5.3	Mynychu o leiaf 2 weithdy Rhwydwaith Dwyieithrwydd Colegau Cymru bob blwyddyn i rannu arfer da	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2012 31 Awst 2013 31 Awst 2014	Cofnodion cyfarfodydd
5.4	Paratoi cynllun adeiladol a chadarn gyda manylion ariannu i ddangos sut y gall rôl yr Hyrwyddwyr ddatblygu'r agenda cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y coleg wedi 31ain Awst 2014.	Arweinydd Addysg Dwyieithog	Rheolwr Dwyieithrwydd a Gwasanaethau Corfforaethol	31 Awst 2014	